[52] Cyhoeddi'r data diweddaraf ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru (dolen uniongyrchol i'r PDF)
[53] Alcohol-specific deaths in the UK - Office for National Statistics
[54] Alcohol-specific deaths in the UK - Office for National Statistics
[55] UK Gov-Department of Transport 2024 release alcohol related collisions and casualties

atynt[56]. Byddai'r dystiolaeth o'r Alban yn awgrymu effaith gadarnhaol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol [gweler **Pennod 5**].

### Derbyniadau i ysbytai

4.25 Mae adolygiad systematig wedi dangos y gwerth posibl i MPA arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol[57]. Ar ben hynny, yn ôl y gwaith modelu a wnaed gan SARG yn 2018, byddai MPA ar 50ppu yn y pen draw (ar ôl 20 mlynedd) yn arwain at 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai, sy'n gysylltiedig ag alcohol, bob blwyddyn yng Nghymru[58].

4.26 Yn 2021-2022 cynyddodd derbyniadau i ysbytai sy'n gysylltiedig ag alcohol 5.5% o'i gymharu â 2019-20[59].

4.27 Yn yr un modd â marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, mae derbyniadau i ysbytai hefyd yn fwy cyffredin ymysg unigolion hŷn, dynion a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol[60].

Sylwer – mae oedi bob amser mewn cyhoeddiadau data swyddogol (y llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus hirdymor, cymaradwy) ar gyfer yfed alcohol, marwolaethau cysylltiedig a derbyniadau i'r ysbyty. Felly, mae gennym rywfaint o ddata ar gyfer cyfnod 2020-2022 (sy'n aml yn cael ei gymhlethu gan COVID-19 ymysg pethau eraill), ond nid ar gyfer cyfnod llawn ail hanner y gwerthusiad hwn 2022-24.

### Archwiliadau – Trwyddedu

4.28 Yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl cyflwyno'r MPA, roedd arolygiadau trwydded yn tynnu sylw at lawer iawn o gydymffurfio cychwynnol [Gweler pennod 7 yr adroddiad interim] gyda dim ond chwe hysbysiad cosb benodedig yn cael eu cyhoeddi yn dilyn 3,013 o arolygiadau gan Safonau Masnach Cymru[61].

---

56 Walsh et al 2022 -Austerity related death rates. BMJ Journals.
57 Maharaj et al 2023 MPA and alcohol-related hospital outcomes: systematic review in BMJ. National Library of Medicine.
58 Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield 2018 - Adroddiad Terfynol Modelu MPA Cymru. Llywodraeth Cymru.
59 Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022 Cloddio Data Camddefnyddio Sylweddau
60 Cyhoeddi'r data diweddaraf ar gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru
61 Adolygiad 24 mis o Isafbris Alcohol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru.

4.29 Roedd ymholiad pellach i wyth o swyddfeydd Safonau Masnach ym mis Chwefror 2024 [ymatebion yn yr adran data sylfaenol isod] yn cadarnhau bod cydymffurfiaeth yn dal yn uchel, ac nad oedd hysbysiadau cosb benodedig wedi cael eu rhoi yn ystod y 12 mis diwethaf.

4.30 Mae hanesion anecdotaidd o werthu alcohol 'o dan y cownter' wedi cael eu hadrodd yng nghwerthusiadau 'pobl sy'n cael triniaeth' Cymru a'r Alban[62] [63]. Nododd un o'r erlyniadau diweddar yn Wrecsam fod alcohol yn cael ei werthu dan yr isafswm pris (ynghyd â gwerthu sigarennau a fêps anghyfreithlon)[64].

### Data sylfaenol

4.31 Ar gyfer y cam adrodd terfynol hwn, fe wnaethom gyfweld â grŵp bach pwrpasol o randdeiliaid allweddol [roedd rhai'n cael eu hailadrodd gyda'r rheini a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad interim] a chawsom ohebiaeth e-bost gan saith swyddog Safonau Masnach, i gasglu eu safbwyntiau ar effaith MPA yng Nghymru, ei gymharu â mannau eraill, a'u barn am gamau nesaf o ran polisi ac unrhyw bris yn y dyfodol.

4.32 Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad interim, mae casglu data o'r fath yn elfen bwysig o ran helpu i ddeall rhai o'r cymhlethdodau rhyng-gysylltiedig, esboniadau amgen, a bylchau a nodwyd.

4.33 Mae'r data newydd rydyn ni wedi'i gael wedi bod yn ansoddol ei natur ac wedi cael ei gasglu drwy gyfweliadau un i un neu sgyrsiau grŵp.

4.34 Roedd ein methodoleg samplo yn targedu'r rheini sydd â rolau arweiniol/cenedlaethol ym meysydd eiriolaeth, gwerthuso, modelu, polisi a chyfrifoldebau darparu gwasanaethau yn Iwerddon, Cymru a'r Alban. Felly, er bod ein hymchwiliadau iddynt yn canolbwyntio ar Gymru, clywsom lawer o wybodaeth gyd-destunol wybodus o awdurdodaethau eraill.

4.35 Mae rolau penodol a chymharol gyfarwydd yr ymatebwyr yn golygu nad ydym wedi cynnwys unrhyw ddisgrifyddion ar eu cyfer sy'n gysylltiedig â'r

[62] Adroddiad interim - 'Astudiaeth Triniaeth' MUP Cymru. Llywodraeth Cymru.
[63] Holmes et al 2022 final report evaluating MUP harmful drinking. Public Health Scotland.
[64] Newyddion Cyngor Wrecsam Mai 2024

dyfyniadau uniongyrchol a ddarparwyd. Cyfeirir atynt yn syml fel R1, R2 ayb.

4.36 Cafodd cyfweliadau eu dadansoddi â llaw ar gyfer ystyriaethau thematig. Cynhaliwyd y dadansoddiad gan ddefnyddio'r un fframweithiau codio a oedd yn sail i'r adroddiad interim h.y. mannau cychwyn pendant hysbys yn hytrach na chodio rhydd ymddangosol. Yn unol â methodoleg y Dadansoddiad o Gyfraniad, gwnaed hyn yn ddiweddarach yn y cam ysgrifennu adroddiad, ac roedd amseru hynny'n sicrhau ymchwiliad i esboniadau amgen ar gyfer canfyddiadau data eraill, cyfraniad pellach at fylchau mewn dealltwriaeth, a chyfeirio at ffynonellau data eraill.

4.37 Cafodd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr elfen hon o'r astudiaeth ei chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Prifysgol Wrecsam (id405 – -11--09--2019).

4.38 Fel pob astudiaeth ansoddol, mae llawer mwy o ddata nag y gellir ei gyflwyno mewn unrhyw adroddiad penodol, ac yn enwedig un crynodol o'r math hwn. Rydym yn cynnig ychydig o ddata yma a oedd yn atgyfnerthu'n benodol y sylwadau a rannwyd â ni. Mae nifer o enghreifftiau eraill o ddata hefyd yn cael eu defnyddio ym **Mhennod 8**, i ddangos y pwyntiau a wnaed yno hefyd.

### Gweithredu

4.39 Unwaith yr oedd ar y llyfr statud, roedd gweithredu'r MPA yn cael ei ystyried yn gymharol syml.

> 'Mae'n hawdd ei wneud. Nid yw'n costio llawer iawn. Ar ôl ei roi ar waith, mae'r diwydiant yn meddwl, dyna ni. Dydy pobl ddim yn meddwl amdano...y neges bwysig yw ei fod yn gweithio. Nid yw'n arwain at ganlyniadau anfwriadol ar lefel y boblogaeth ac mae'n hawdd ei weinyddu.' [R3]

4.40 Yn dilyn ein hadroddiad interim a oedd yn dangos lefelau uchel o gydymffurfio ar ôl gweithredu, roedd ymatebwyr yn teimlo bod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn dal yn gadarn. Ni ddywedodd yr un o'r swyddogion safonau masnach a ymatebodd i ni eu bod wedi rhoi unrhyw hysbysiadau

cosb benodedig yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd gwirio cydymffurfiad ag MPA wedi dod yn rhan arferol o weithgarwch a dim ond os cafwyd cwynion yr aethpwyd ar ei drywydd yn benodol.

> ‘Oedd, roedd y cydymffurfio’n uchel, a’r rhan fwyaf o’r safleoedd adwerthu yn cydymffurfio adeg yr arolygiad cyntaf. Lle’r oedd diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad cychwynnol, roedd hyn yn cael ei gywiro ar unwaith ar y cyfan ac roedd arolygiadau dilynol yn dangos cydymffurfiaeth barhaus.’ [R1]

> ‘Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â masnachwyr yn torri’r polisi MUP. Roedd y cydymffurfio yn uchel ar y dechrau ac mae’n ymddangos ei fod yn aros felly.’ [R2]

4.41 Nodwyd bod cydymffurfio ag MPA yn amlwg yn y pwynt pris a fabwysiadwyd ar gyfer llawer o wirodydd ar ôl ei roi ar waith h.y. £13.13 ar gyfer potel safonol. Fel y dywedodd un ymatebydd:

> ‘Na, mae’n rhyfedd iawn, ac mae’n ddiddorol eu bod yn union ar 50c yr uned, felly gallant fod wedi dewis rhif mwy talgrynedig sy’n edrych yn fwy normal, yr hyn y byddech yn disgwyl ei weld.’ [R5]

**Yfed: Ymddygiad, Defnyddio a Phrynu**

4.42 Roedd pawb yn cytuno bod prisio fel mecanwaith yn effeithio ar brynu alcohol ac ar yr hyn sy’n cael ei yfed a’r niwed.

> ‘Felly, dwi’n meddwl mai dim ond darn arall o’r jig-so yw hwn, darn arall o dystiolaeth sy’n dweud ie, mae prisio yn dylanwadu ar ymddygiad.’ [R3]

> ‘Rwy’n fodlon ei fod yn dangos bod y polisi wedi gweithio’n fras yn ôl y bwriad. Felly, mae tystiolaeth glir ei fod wedi arwain at y cynnydd mewn prisiau.’ [R7]

> ‘Rwy’n meddwl o ran yr effaith, mae gennym beth tystiolaeth i ddweud ei fod yn lleihau defnydd o alcohol ymysg pobl sy’n yfed heddiw. Ac rydyn ni eisiau i bethau barhau i’r cyfeiriad hwnnw oherwydd bod llai o alcohol yn llai o niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol ac mae hynny’n beth da.’ [R10]

4.43 Deallwyd bod y dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad bod newidiadau ymddygiad wedi digwydd:

> 'Ond o ran gwerthu a phrynu ac o ran niwed, aeth pob un i'r un cyfeiriad, felly mae'n gyson iawn.' [R3]

4.44 Fodd bynnag, roedd maint cyfyngedig y newidiadau gweladwy yn adlewyrchu gwerth cymedrol 50ppu yng nghyd-destun pellter ers y model gwreiddiol ac nid oedd yn dal i fyny â chwyddiant.

> 'Mae 50c yn fesur cymedrol, sy'n cael effaith gymedrol.' [R4]

4.45 Roedd ymdeimlad clir o'r polisi a'r pris 50ppu presennol yn effeithio ar wahanol boblogaethau.

> 'Yn amlwg, dydyn nhw ddim yn siarad amdano, ond dydy'r yfwr cyffredin ddim yn mynd i wneud cysylltiad yn eu pen rhwng eu hymddygiad yfed a pholisi'r llywodraeth, ond mae'n ddigon posib y byddan nhw, heb feddwl amdano hyd yn oed, yn gweld bod prisiau rhai pethau wedi newid a heb feddwl yn benodol amdano, yn newid i rywbeth arall neu'n prynu llai ohono.' [R4]

> 'Mae angen i ni feddwl am sut rydyn ni'n cefnogi pobl sydd â dibyniaeth ar alcohol ac ni fwriadwyd i'r isafbris uned fynd i'r afael â phobl sydd â dibyniaeth ar alcohol.' [R3]

4.46 Nododd llawer o'r ymatebwyr fod effeithiolrwydd y polisi'n amrywio yn ôl y cynnyrch dan sylw.

> 'Roedd hyn yn targedu cynnyrch cost isel, cryfder uchel ac yn codi pris y rheini, a dyna'r pethau roedd yfwyr sy'n arbennig o niweidiol yn eu hyfed. Felly, mae'n debyg mai'r ddadl yw ei fod wedi ei dargedu'n well. Mae'n cael ei dargedu'n well.' [R3]

> 'Ar 50c yr uned, mae'n fesur o seidr gwyn yn bennaf ac ar wahân i un neu ddwy o siopau disgownt, dydw i ddim wedi gweld potel o win am lawer llai na £6 neu £8 ers blynyddoedd.' [R4]

**Niwed Andwyol**

4.47 Ychydig iawn o dystiolaeth a nododd yr ymatebwyr o unrhyw niwed sy'n cael ei achosi ac yn sicr nid oedd unrhyw gynnydd cyffredinol mewn troseddau meddiangar na symud o alcohol i ddefnyddio cyffuriau eraill, fel yr ofnwyd yn aml cyn eu rhoi ar waith.

> 'Efallai fod pethau'n digwydd ar yr ymylon lle mae pobl yn ei chael hi'n anodd, ond yr hyn sydd heb ddigwydd yn sicr yw unrhyw beth sydd wedi bod yn ddigon mawr ac mewn gwirionedd mae momentwm wedi cael ei adeiladu o amgylch pryder lle rydych chi wedi cael stori newyddion ar ôl stori newyddion, ar ôl stori newyddion, sy'n dangos problemau. Dydy hynny ddim wedi digwydd. Pe bai problemau sylweddol iawn yn bodoli, dylem wybod amdano o ddifrif erbyn hyn.' [R7]

> 'Felly, dydw i ddim yn meddwl bod y peth trawsffiniol wedi digwydd...yn sicr fel rhywun sydd, fel rhywun rwy'n cofio'n ei godi, a dweud, rwy'n meddwl bod hynny'n mynd i fod yn broblem. Am ba reswm bynnag, dydw i ddim yn meddwl ei fod yn broblem fawr.' [R8]

> 'Y peth a synnodd fi mewn gwirionedd mewn ffordd yw fy mod i wedi tybio y byddai mwy o farchnad ar gyfer alcohol 'moonshine'[65] cartref yn y boblogaeth hon. Rydw i'n synnu nad ydw i wedi dod ar draws hynny.' [R9]

4.48 Y niwed mwyaf cyffredin a nodwyd oedd yr effaith negyddol ar rai poblogaethau o yfwyr incwm isel ac yn enwedig yfwyr dibynnol ar incwm isel. Y niwed penodol a nodwyd oedd y straen ar incwm yn cael ei ddwysau h.y. llai o arian oherwydd yr angen canfyddedig i flaenoriaethu yfed ar draul pethau eraill.

> 'Na, a'r unig wir dystiolaeth o niwed yw straen ariannol...ar bobl â dibyniaeth...rhai mewn amddifadedd.' [R7]

**Polisi a Phris**

[65] Moonshine – mae fel arfer yn cyfeirio at wirodydd cartref anghyfreithlon.

4.49 Roedd ymdeimlad clir bod chwyddiant bob amser yn cyfrannu at gynnydd mewn prisiau, a’i fod yn rhywbeth a oedd bob amser yn codi, yn hytrach nag yn gostwng, ac felly y dylid dal i fyny ag ef.

> ‘Ac mae’n debyg hefyd mai’r peth am chwyddiant yw nad yw byth yn mynd i lawr, nac ydyw? Mae’n arafu’n unig.’ [R4]

4.50 Nodwyd hefyd bod yr ymyriad mwy diweddar o ran newid y doll gartref gan Lywodraeth y DU wedi arwain at set wahanol o ail-bennu prisiau, a oedd yn ei dro yn effeithio ar fforddiadwyedd cymharol a phris alcohol.

> ‘Rwy’n credu bod y cynnydd yn y doll gartref yn gwneud rhywfaint o wahaniaeth...Rwy’n credu bod dwy swyddogaeth i doll gartref, ac un o’r rheini yw rheoli faint o alcohol sy’n cael ei yfed, a’r llall yw cael arian i’r Trysorlys, ac mae gwahanol Ganghelloriaid yn credu yn hynny i wahanol raddau, ac nid wyf yn credu y byddwn ni byth yn gwybod...’[R4]

4.51 Roedd hefyd yn amlwg bod yr ymatebwyr yn teimlo ei bod yn anodd sefydlu’n gadarn pa ddarn o’r jig-so oedd yn cael yr effaith fwyaf neu lai ar brisiau gweladwy a fforddiadwyedd:

> ‘Rwy’n meddwl mai rhan o’r broblem...nid rhan o’r broblem gydag isafswm prisiau, ond mae’r argyfwng costau byw rydyn ni wedi byw drwyddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu nad yw pobl wir yn gwybod beth yw prisiau rhagor.’ [R8]

> ‘Mae’n gyffredin iawn bod y bobl rwy’n gweithio gyda nhw yn cael trafferthion ariannol, bron bob amser ac mae hynny bob amser yn straen mawr yn eu bywydau... [a] maen nhw’n cael trafferthion ariannol yn barod, maen nhw’n cael budd-daliadau, maen nhw’n aml yn ymweld â banciau bwyd.’ [R9]

Gwnaethant sylwadau hefyd fod angen mwy o ymchwil ar y mater hwn.

> ‘Dyna un o’r pethau rydyn ni’n galw amdanyn nhw yw bod angen rhyw fath o gysylltiad ac mae [SARG] wedi gwneud rhywfaint o waith a mesurau gwahanol y gallech chi ei gysylltu â nhw. Mae rhywfaint o

drafod ynghylch a yw'n chwyddiant neu a yw'n fesur o fforddiadwyedd...'[R6]

4.52 Roedd rhywfaint o'r cynildeb yn y sgwrs ymysg yr ymatebwyr yn dangos bod peidio â chynyddu pris yr uned yn unol â chwyddiant wedi lleihau effeithiolrwydd 50ppu, a bod cynyddu'r pris yn ystod 'argyfwng costau byw' yn benderfyniad gwleidyddol anodd iawn.

4.53 I rai, yr ateb oedd ail-fframio'r sgwrs i un o gynnal gwerth y polisi, yn hytrach na'r cynnydd mewn prisiau.

'Rwy'n credu bod codi'r pris yn anoddach, ac yn amlwg byddem yn dweud nad yw'n codi'r pris; mae'n cynnal y gwerth ac er mwyn parhau i fod yn effeithiol mae angen iddo gynnal ei werth, ond rwy'n meddwl y bydd rhywfaint o wrthwynebiad i hynny.' [R3]

**Cyfyngiadau polisi a gwerthusiadau**

4.54 Awgrymodd yr ymatebwyr fod cyfyngiadau pendant i weithredu a gwerthuso MPA yng Nghymru (a/neu'r Alban). Y rhain oedd (i) y pris a'i natur gymedrol, fel uchod a (ii) rhai cyfyngiadau ar y gwerthusiadau (eu hannibendod a/neu mewn rhai achosion y natur lai a llai ystadegol gadarn.

'Un yw, mae hwn yn bolisi sy'n seiliedig ar brisiau, ac mae chwyddiant yn newid prisiau dros amser. Mae angen i bolisi sy'n seiliedig ar brisiau ddal i fyny â hynny. Drwy wneud dim, rydych chi'n fwriadol yn gwneud y polisi'n llai effeithiol.' [R7]

4.55 Roedd llawer o'r ymatebwyr yn deall bod COVID-19 wedi effeithio ar y gallu i werthuso effaith MPA yng Nghymru. Deallwyd bod y pandemig wedi newid natur ymddygiad yfed rhai pobl, ac o ganlyniad wedi effeithio ar y data a'r hyn y gellid, neu na ellid, ei briodoli i'r pris:

'Rwy'n meddwl, o ystyried y pandemig a phopeth sydd wedi digwydd, nad yw mesur defnydd o alcohol neu niwed alcohol ym mhwynt A a mesur ym mhwynt B a dweud bod isafswm pris uned yn gweithio yn ddehongliad gonest.' [R10]

‘Rydyn ni’n gweld cymaint o ffactorau sydd wedi ysgogi yfed. Fel y dywedwch, mae diweithdra, costau byw, COVID, ac i fod yn deg na...maen nhw’n llawer ehangach nag y gallwn ni ddelio â nhw.’ [R8]

4.56 Roedd natur gyfyngedig yr arfogaeth polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o fewn cyfyngiadau’r setliad datganoli (yn wahanol i’r opsiynau sydd ar gael mewn awdurdodaethau eraill (h.y. rheoli argaeledd, marchnata a thrwyddedu), hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor o ran lleihau unrhyw effaith MPA bosibl.

‘Ond byddai’n dal yn well gen i i ni gael mwy o bwerau yng Nghymru ac rwy’n sicr yn meddwl y byddai’r gallu i ddylanwadu ar drwyddedu yn beth i’w groesawu a... marchnata alcohol.’ [R8]

4.57 Er gwaethaf natur gadarnhaol y gwerthusiadau hydredol (3-4 mlynedd) a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, deallwyd mai cyfyngedig oedd goblygiadau’r canfyddiadau, o ystyried y ffrâm amser gymharol fyr yr oeddent yn ei gwmpasu, a’r gydnabyddiaeth na fyddai modd gweld effaith poblogaeth gyfan am flynyddoedd lawer i wireddu ei gwir fanteision.

‘Ond dwi’n meddwl mai’r synnwyr oedd mai isafswm pris uned oedd y mesur roedd gan bobl yr hyder mwyaf ynddo a’r mesur a allai gael yr effaith fwyaf arwyddocaol. Efallai nid ar unwaith ond efallai dros y tymor canolig i’r tymor hir... Ac mewn gwirionedd, mae’n debyg y bydd angen 20 mlynedd arall arnom, 25 mlynedd i weld beth fydd yr elfen atal...’ [R10]

4.58 Er gwaethaf hyn, awgrymodd nifer o bobl fod natur y byd go iawn a chyd-destunau cymhleth y gweithredu yn golygu mai’r dystiolaeth a’r dulliau gwerthuso, mewn gwirionedd, oedd y rhai gorau y gellid eu cyflawni o bosibl o dan yr amodau penodol.

‘...ar gyfer gwerthuso polisi, mae hyn cystal ag y gellid ei gael. Allwch chi ddim cynnal gwerthusiad polisi sy’n priodoli’n bendant. Allwch chi ddim bod wedi gwneud hyn fel arbrawf go iawn, hap-dreial rheoli, ac ati, felly mae hyn cystal ag y gellid ei gael.’ [R3]

**Y camau nesaf**

4.59 Roedd cefnogaeth unfrydol i barhau â'r polisi:

> 'Ie, mae hynny yn ein barn ni wedi cael effaith gadarnhaol' [R8]

Er, fel dim ond un o'r polisïau niferus sydd eu hangen i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

> 'Nid dyma'r unig ateb, ond mae'n rhan o'r ateb.' [R3]

4.60 Roedd ymatebwyr yn aml yn priodoli eu cefnogaeth i (i) elfen o bendantrwydd ynghylch yr (effaith fanteisiol) sy'n gysylltiedig â chynyddu pris rhai cynhyrchion alcohol rhad a (ii) diffyg tystiolaeth gyfanwerthol o niwed andwyol. Un ymateb nodweddiadol oedd hwn gan un ymatebydd a oedd yn ystyried y penderfyniad ar ddechrau 2024 a oedd yn wynebu Llywodraeth yr Alban:

> 'Ie, ac o ystyried y dystiolaeth rydyn ni eisoes wedi siarad amdani, a'r set gymharol fach o bryderon neu ganlyniadau negyddol posibl, rwy'n cytuno, does dim rheswm clir pam y byddech chi eisiau gwrthdroi penderfyniad a wnaed yn 2012.' [R7]

4.61 Wedi dweud hynny, mynegwyd pryder yn aml, er yn cefnogi'r manteision ar lefel y boblogaeth, bod effaith MPA ar yfwyr dibynnol ar incwm isel yn codi cwestiynau ynghylch beth arall y gallai fod angen ei roi ar waith i'w helpu.

> 'Fy marn i'n broffesiynol yw bod angen cydbwyso hyn â, iawn, mae hyn yn mynd i helpu pobl yn ehangach, ond mae'n mynd i wneud pethau'n waeth i'r boblogaeth hon, felly sut ydyn ni'n mynd i gydbwyso hynny? Beth ydyn ni'n ei roi ar waith iddyn nhw ochr yn ochr â'r polisïau hyn i wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu taro'n galetach?' [R9]

4.62 Hefyd, gwnaed yr awgrym na fyddai'n gwneud unrhyw synnwyr i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i'r MPA gan ei fod ar y llyfrau deddfwriaethol bellach.

> 'Rwy'n credu, o ran cydbwysedd rhwng manteision a niwed, rwy'n credu bod mwy - risg uwch o niwed o beidio â mynd ar drywydd polisi isafswm pris uned blaengar - byddwn yn pryderu pe na bawb yn gwneud hynny - yn ei dynnu'n ôl, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio isafswm pris neu ddim yn bwrw ymlaen â hynny - rwy'n credu ei fod yn gweithio,

rwyf ond yn amheus ynghylch faint mae'n gweithio. Ond os byddwn yn ei ollwng, rwy'n credu y byddai iddo ganlyniadau mwy na dim ond prisiau. Dwi'n meddwl y bydd yn rhyw fath o – bydd yn gam yn ôl.' [R10]

# 5. Y Gronfa Dystiolaeth Ehangach

**Crynodeb**

- Mae'r MPA, ar wahanol ffurfiau, wedi cael ei weithredu a'i werthuso mewn awdurdodaethau eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod, a dylai barhau i fod, yn ymwybodol o brofiadau MPA mewn mannau eraill.
- Mae mwy a mwy o erthyglau ac adroddiadau wedi'u cyhoeddi, i gyd yn gefnogol yn gyffredinol i, ac yn awgrymu bod gan isafswm pris alcohol rôl glir i'w chwarae fel rhan o ystod ehangach o weithgareddau i leihau niwed alcohol. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ystyried y sylfaen dystiolaeth sefydledig hon.

### Cyflwyniad

5.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth y tu hwnt i Gymru. Mae tair adran i hyn. Yn gyntaf, crynodeb o ganfyddiadau'r gwerthusiad terfynol ar gyfer MUP yn yr Alban, y llwybr dilynol at barhau â'r ddarpariaeth, a chyflwyno pris newydd o 65ppu. Yn ail, archwilio'r dystiolaeth ar ôl cyflwyno MPA mewn mannau eraill. Yn olaf, crynodeb o dystiolaeth ddiweddar allweddol o'r llenyddiaeth.

### Gwerthusiad Yr Alban

5.2 Gorffennodd Iechyd Cyhoeddus yr Alban (PHS) ei werthusiad ar gyfer cyflwyno'r isafbris uned yn yr Alban yn ystod haf 2023[66].

5.3 Rydym wedi adrodd mewn mannau eraill ar fanylion yr astudiaethau a oedd yn cyfrif am yr holl becyn gwerthuso[67]. Roedd y gwerthusiad synthesis terfynol gan PHS yn cynnwys 20 astudiaeth[68].

---

[66] Public Health Scotland Website Final Evaluation Reports
[67] Adolygiad 24 mis o Isafbris Alcohol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru.
[68] Public Health Scotland Final Report Full

5.4 Mae’r adran hon yn crynhoi’r prif ganfyddiadau a negeseuon o werthusiad cyffredinol PHS a pha gamau nesaf y mae Llywodraeth yr Alban wedi’u cymryd.

5.5 Roedd gan PHS ddau gwestiwn gwerthuso cyffredinol ar y dechrau:

- I ba raddau y mae gweithredu MUP yn yr Alban wedi cyfrannu at leihau niwed cymdeithasol ac iechyd sy’n gysylltiedig ag alcohol?
- A effeithir yn fwy ar rai pobl a busnesau (yn gadarnhaol neu’n negyddol) nag eraill?[69]

5.6 Mewn perthynas â niwed, daeth y gwerthusiad i’r casgliad canlynol:

- Mae tystiolaeth gref bod MUP wedi lleihau nifer y marwolaethau a achosir yn uniongyrchol o ganlyniad i yfed alcohol (sydd i’w briodoli’n llwyr) yn yr Alban o’i gymharu â’r hyn a fyddai wedi digwydd heb MUP[70].
- Yn gyffredinol, mae’n debygol bod yr isafbris uned wedi lleihau nifer y derbyniadau i’r ysbyty y gellir eu priodoli’n llwyr yn yr Alban o’i gymharu â’r hyn a fyddai wedi digwydd heb yr isafbris uned.
- Nid oes tystiolaeth gyson bod MUP wedi effeithio ar ganlyniadau iechyd eraill sy’n gysylltiedig ag alcohol.
- Nid oes tystiolaeth gyson o effeithiau cadarnhaol na negyddol ar ganlyniadau cymdeithasol, fel troseddu sy’n gysylltiedig ag alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, ar lefel y boblogaeth.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth ansoddol o ganlyniadau iechyd a chymdeithasol negyddol ar lefel unigol, yn enwedig i’r rheini sydd â dibyniaeth ar alcohol sy’n agored i niwed yn ariannol.

5.7 O ran yr effaith ar unigolion a busnesau, daeth y gwerthusiad i’r casgliad canlynol:

[69] The evaluation of Minimum Unit Pricing (MUP) for alcohol: Summary (healthscotland.scot)
[70] Dylid nodi bod nifer y marwolaethau oherwydd alcohol yn yr Alban yn parhau i godi - ONS Alcohol Deaths 2022

- Roedd y gostyngiadau a welwyd mewn marwolaethau y gellir eu priodoli'n llwyr a derbyniadau i'r ysbyty ar eu huchaf ymhlith dynion a'r rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban.
- Mae tystiolaeth gref a chyson o ostyngiad mewn yfed alcohol ar ôl rhoi'r MUP ar waith.
- Roedd MUP yn effeithio ar bris rhai cynhyrchion yn fwy nag eraill, yn enwedig rhai mathau o seidr a gwirodydd.
- Canfu adwerthwyr fod colled mewn gwerthiant yn cael ei wrthbwyso'n gyffredinol gan gynnydd mewn pris; nid yw'r effaith ar elw yn gyffredinol yn glir.
- Yn gyffredinol, nid oes tystiolaeth gyson bod MUP yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y diwydiant diodydd alcoholig yn gyffredinol.

5.8 Gorffennodd PHS eu gwerthusiad drwy:

- Ddangos yn gyffredinol bod y dystiolaeth yn awgrymu bod MUP wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd, sef gostyngiad mewn marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a derbyniadau i ysbytai, yn enwedig ymysg dynion a'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac felly'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- Awgrymu bod y penderfyniad ynghylch a ddylid cadw'r MUP, ac ar ba lefel y mae'r MUP yn cael ei osod, yn un i lunwyr polisïau ei wneud, a fydd angen pwyso a mesur y manteision a'r risgiau posibl.

5.9 Mae'r gwerthusiad hefyd yn datgan, os bydd MUP yn parhau, er mwyn cynnal a gwella'r effeithiau cadarnhaol ymhellach, y dylid ystyried y canlynol:

- Mae'n debygol mai dim ond os bydd gwerth MUP o'i gymharu â phrisiau ac incymau eraill yn cael ei gynnal y bydd unrhyw effeithiau manteisiol sydd wedi deillio o MUP yn parhau.

- Prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod MUP yn effeithiol o ran lleihau yfed ar gyfer y bobl hynny sy'n ddibynnol ar alcohol.
- Efallai y bydd rhai pobl sy'n dibynnu ar alcohol ac nad oes ganddynt lawer o gymorth ariannol yn wynebu mwy o bwysau ariannol o ganlyniad i'r MUP
- Yn gyffredinol, dywedodd y rhai dan 18 oed nad oedd MUP wedi effeithio ar faint o alcohol roeddent yn ei yfed.

5.10 Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso terfynol, dechreuodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylid parhau â'r Isafbris Uned (MUP) fel rhan o'r ystod o fesurau polisi sydd ar waith i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, ac os bydd yn parhau, dylid pennu lefel yr isafbris uned wrth symud ymlaen[71].

5.11 Rhoddodd SARG adroddiad pellach i Lywodraeth yr Alban, gan ddarparu model newydd o bolisïau prisio alcohol, yfed alcohol, a niwed yn yr Alban[72].

5.12 Dilynwyd hyn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2024 drwy gyhoeddi cyngor annibynnol gan Grŵp Adolygu Rheoleiddio (RRG) a chyfres o adroddiadau Asesu Effaith[73] a oedd yn ystyried y posibilrwydd o weithredu MUP yn y dyfodol[74].

5.13 Gosodwyd gorchmynion gerbron Senedd yr Alban ar 19 Chwefror 2024 i barhau i osod isafswm pris fesul uned o alcohol (h.y., dileu cymal machlud (y gofyniad i ofyn i lywodraeth fynd ati i barhau â'r ddeddfwriaeth neu bydd yn mynd yn ddi-rym) a'i gynyddu 15c. Aeth y gorchmynion gerbron Senedd yr Alban i'w cymeradwyo (h.y. 65ppu)[75].

5.14 Cynhyrchodd Llywodraeth yr Alban ddogfen friffio grynodol ar 12 Ebrill 2024. Roedd yn crynhoi'r tair ystyriaeth allweddol fel a ganlyn: (i) y dystiolaeth ar gyfer y cysylltiad rhwng pris, yfed a niwed; (ii) sut mae'n

[71] Scottish Government Analysis on Consultation of future of MUP
[72] SARG report MUP to Scottish Government 2023. Sheffield Addictions Research Group.
[73] Scottish Government Business and Regulatory Impact Assessment
[74] Scottish Government Website -Publications re Alcohol
[75] Scottish Government MUP news announcement Feb 2024

effeithio ar wahanol boblogaethau yfed; a (iii) beth allai fod y canlyniadau anfwriadol[76].

5.15 Cymeradwywyd adnewyddu'r MUP ar 65ppu gan Senedd yr Alban ar 17 Ebrill 2024[77].

5.16 Mae erthyglau dilynol yn parhau i ddangos effaith gadarnhaol MUP ar leihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed a'i werthu yn yr Alban[78][79].

**Awdurdodaethau Eraill**

5.17 Mae'r MPA wedi cael ei fabwysiadu mewn gwahanol ffurfiau mewn 13 o wledydd gwahanol[80].

5.18 Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn dadlau 'Mae effeithiolrwydd isafswm prisiau fel mecanwaith ar gyfer lleihau'r niwed iechyd a chymdeithasol a achosir gan alcohol yn cael ei gefnogi gan gorff sylweddol o dystiolaeth', a bod y dystiolaeth mewn tair ffurf: (i) tystiolaeth anuniongyrchol; (ii) modelu; a (iii) thystiolaeth gwerthuso uniongyrchol[81].

5.19 Fel yr Alban, dros y degawd diwethaf mae Iwerddon wedi cynnal lefelau uchel o yfed alcohol a niwed cysylltiedig[82][83]. O ganlyniad, mae hefyd wedi mabwysiadu rhaglen gynhwysfawr iawn o ddeddfwriaeth ar iechyd y cyhoedd (alcohol), lle mae isafswm pris wedi cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chyfyngiadau o ran argaeledd a marchnata, yn ogystal â symud tuag at wybodaeth/rhybuddion iechyd ar labeli[84]. Mae isafswm pris Iwerddon ymysg yr uchaf ledled y byd[85]. Nid yw gwerthusiadau wedi'u cyhoeddi wedi ymddangos eto.

5.20 Cyflwynwyd isafswm prisiau ar gyfer alcohol (yn 2018) fel elfen o bolisi alcohol gan dalaith Tiriogaeth y Gogledd, yn Awstralia[86]. Mae'r pris o 1.30

---

[76] The Alcohol (Minimum Pricing)(Scotland) Act 2012 (Continuation) Order 2024 | Scottish Parliament (dolen uniongyrchol i'r PDF)
[77] Scottish Parliament April 2024 Approval MUP renewal
[78] Nguyen et al 2024 effects of MUP Scotland. PLOS ONE.
[79] Giles et al 2024 MUP 3 year sales data. Wiley Online Library.
[80] World Health Organization 2022 No Place for Cheap Alcohol
[81] Tudalen 27 World Health Organization 2022 No Place for Cheap Alcohol
[82] Irish Health Research Board 2021 harms and policy report
[83] Zubair et al 2022 Global Burden of Disease Ireland. Health Research Board.
[84] Barry and Lyne 2023 Irish Implementation. National Library of Medicine.
[85] World Health Organization 2022 No Place for Cheap Alcohol
[86] Clifford et al 2021 Alcohol Policy in the Northern Territory Australia. National Library of Medicine.

doler Awstralia fesul uned yn cyfateb i oddeutu 70ppu. Mae gwerthusiad tair blynedd wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn[87], ynghyd ag erthyglau a adolygwyd gan gymheiriaid[88]. Mae effeithiau amlwg wedi bod ar bris ac argaeledd rhai cynhyrchion rhatach (h.y. gwin casgen), arwyddion o effaith cyfyngu ar ddefnydd, ac effeithiau cadarnhaol ar iechyd[89][90].

5.21 Roedd Canada wedi mabwysiadu MPA yn gynnar. Mae wedi amrywio'r isafbris ar gyfer alcohol yn ei thaleithiau ers degawdau lawer[91][92], ac mae astudiaethau wedi dangos bod profiad Canada wedi arwain at ostyngiad mewn yfed alcohol a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys marwolaethau[93][94].

**Y diweddaraf am lenyddiaeth**

5.22 Mae holl adroddiadau gwerthuso blaenorol Cymru wedi manteisio ar negeseuon sy'n dod i'r amlwg o'r llenyddiaeth. Fe wnaethom ddarparu crynodeb o'r rhain yn ein hadroddiad interim, gan gynnwys tabl atodiad manwl o ddogfennau allweddol, gan nodi awduron, teitl a dolenni i'r man cyhoeddi[95].

5.23 Fe wnaethom grynhoi'r negeseuon hyn (yn haf 2023) fel a ganlyn:

- Mae rheoli prisiau yn ddull effeithiol o leihau defnydd.
- Mae modelu'n awgrymu y bydd rheoli prisiau yn arwain at lai o niwed o ganlyniad i alcohol.
- Mae angen gwreiddio dulliau prisio mewn dulliau polisi alcohol cyfannol ehangach
- Mae rheoli prisiau yn arwain at newidiadau disgwyliedig a gwirioneddol ym mhrisiau cynnyrch ac argaeledd.
- Mae effeithiolrwydd ac effaith rheoli prisiau yn dibynnu ar y lefel pris a bennir.

[87] Frontier Economics 2022 Evaluation MUP Northern Territory Australia (dolen uniongyrchol i'r PDF)
[88] Taylor 2023 Review of Evidence Northern Territory Australia. Wiley Online Library.
[89] Clifford et al 2021 Alcohol Policy in the Northern Territory Australia. National Library of Medicine.
[90] Taylor 2023 Review of Evidence Northern Territory Australia. Wiley Online Library.
[91] Thompson et al 2017 MPA in Canada. Journal of Public Health Policy.
[92] Reducing Harm to Canadians 2012 (Alcohol Price Policy Series)
[93] World Health Organization 2022 No Place for Cheap Alcohol
[94] Zhao et al 2013 minimum price British Columbia. National Library of Medicine.
[95] Adolygiad 24-mis o'r Isafbris i Gymru. Llywodraeth Cymru. (yn enwedig atodiadau 1.1-1.3)

- Mae'r polisi, er ei fod yn effeithio ar bob cynnyrch ac felly ar bob poblogaeth, yn debygol o gael effaith wahanol ar boblogaethau penodol.
- Yr yfwyr trwm hynny ar incwm isel sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a byddant yn addasu ymddygiad i reoli fforddiadwyedd.
- Nid yw unrhyw bolisi prisio yn gweithredu mewn gwagle ac mae amrywiaeth o ystyriaethau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol eraill yn effeithio arno.

5.24 Roedd yr adroddiadau terfynol o werthusiadau eraill Cymru (Lotiau 2, 3, a 4) yn adolygu arsylwadau llenyddiaeth diweddar ychwanegol, ac mae'r adolygiadau hynny wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn digwydd ar draws ei benodau yn hytrach na chael ei ailadrodd yn fanwl yma. Gellir crynhoi llawer ohono fel a ganlyn: (i) tystiolaeth y gellir dangos bod pris yn mynd i'r afael yn effeithiol â chynhyrchion alcohol rhatach, prynu, a'r defnydd cyfanwerthol gan y boblogaeth; (ii) disgwyliadau cadarnhaol pellach o fodelu effeithiau canfyddedig mewn gwahanol wledydd; a (iii) chanlyniadau cymysg ar boblogaethau neu gyd-destunau penodol (h.y. yfwyr sy'n ceisio triniaeth neu dderbyniadau i'r ysbyty).

5.25 Yn yr un modd, ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn, gwnaethom gynnal amrywiaeth o chwiliadau strwythuredig ar gyfer llenyddiaeth arall a gyhoeddwyd 2022-24 (h.y. y cyfnod ers ein hadroddiad interim), gan ganolbwyntio ar bolisi alcohol a dulliau seiliedig ar brisiau. Mae'r rhain yn cael eu nodi a'u crynhoi yn **Atodiad 3**.

5.26 Mae'r dystiolaeth yn parhau i dynnu sylw at fforddiadwyedd, ac isafswm prisiau yn benodol, fel un o'r dulliau polisi mwyaf effeithiol.

5.27 Mae'r llenyddiaeth yn parhau i adrodd ar themâu penodol. Gellid crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- Mynd i'r afael â fforddiadwyedd alcohol, ac yn benodol lleihau argaeledd cynnyrch alcohol rhad iawn.

- Cymharu dulliau gweithredu MPA â dulliau polisi prisio eraill fel trethi.
- Ystyriaethau ynghylch sut mae prisio yn un o ystod o ddulliau polisi angenrheidiol i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- Cymharu awdurdodaethau.
- Cymhlethdod (annibendod) y cyd-destunau gwerthuso.

5.28 Roedd un astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar a oedd yn edrych ar brofiad uniongyrchol o MPA yng Nghymru (Mawrth 2020, yn ystod y mesurau diogelu iechyd y cyhoedd cychwynnol) yn cymharu data gwerthu â data Lloegr, gan ddod i'r casgliad bod y polisi '...yn gallu bod yn effeithiol iawn o ran lleihau'r galw am alcohol rhad gyda gostyngiad net cyffredinol mewn alcohol yn y cartref...'[96].

5.29 Mae dau gyhoeddiad allweddol arall sy'n cael eu dyfynnu'n aml mewn dadleuon neu gyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar fabwysiadu polisi MPA. Mae'r ddau ohonynt yn gryf o blaid y polisi.

5.30 Yn gyntaf, mae isafswm pris ar gyfer alcohol wedi dod yn un o 'Syniadau Gorau' Sefydliad Iechyd y Byd (h.y. polisi sydd wedi'i gynllunio, a thystiolaeth dda ei fod yn gwella iechyd y cyhoedd). Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu bod y dystiolaeth yn dangos gostyngiadau mewn yfed alcohol a niwed ar ôl cyflwyno mesurau isafswm prisiau[97]. Er bod 'Syniadau Gorau' yn cefnogi'r isafbris, mae'n nodi y dylid ystyried bod prisiau sylfaenol yn ategu trethiant, nid fel dewis arall, ac y gall isafswm prisiau arwain at gynnydd mewn yfed alcohol heb ei gofnodi, ond gellir atal y rhain drwy fesurau wedi'u targedu.

5.31 Yn ail, mae manylion y modd y gallai isafswm prisiau fod yn rhan o bolisïau eraill wedi'u cynnwys yn 'Alcohol: No Ordinary Commodity'[98]. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu 69 o strategaethau ac ymyriadau gwahanol sydd wedi cael eu gwerthuso'n wyddonol am eu heffeithiolrwydd, wedi'u trefnu o

---

[96] T15 Bokhari et al 2024 - Economic Inquiry
[97] World Health Organisation - The potential of minimum pricing to reduce harms
[98] Alcohol - No Ordinary Commodity. Oxford University Press.

amgylch saith pennod ymyrraeth polisi, gan gynnwys un ar brisiau a threthiant. Mae’r dulliau polisi eraill yn cynnwys argaeledd, marchnata a thrwyddedu, fel yr amlinellir ym **Mhennod 2** a’n hadroddiad interim[99].

5.32 Mae llawer o’r sylfaen dystiolaeth hon yn defnyddio ac yn profi’r modelu a ddatblygwyd gan SARG[100], sydd wedi cynhyrchu modelau gwreiddiol ac wedi’u diweddaru ar gyfer sawl awdurdodaeth gan gynnwys Cymru a’r Alban.

5.33 Roedd y model terfynol a ddarparwyd cyn i SARG roi’r MPA ar waith ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2018[101]. Daeth i’r casgliad y byddai lefel MPA rhwng 35ppu a 70ppu yn: (i) effeithiol o ran lleihau yfed alcohol; (ii) byddai’n creu effeithiau gwahaniaethol rhwng mathau o yfwyr a lefelau incwm; (iii) arwain at ostyngiad mewn rhai mathau o niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol; ac (iv) yn fwy effeithiol na chodiadau treth bach.

5.34 Cafwyd enghreifftiau o waith modelu a wnaed ar gyfer gwledydd eraill a grwpiau academaidd eraill. Mae pob un o’r rhain hefyd yn dangos potensial cadarnhaol prisio a mesurau polisi alcohol eraill. Mae enghreifftiau diweddar i’w gweld yn **Atodiad 3**.

5.35 Er bod rhywfaint o ddadlau o hyd ynghylch maint unrhyw effeithiau gweladwy, pa mor effeithiol yw’r methodolegau gwerthuso a ddefnyddir, modelu fel realiti, ac a oes rhai ystyriaethau niweidiol o ran polisïau isafswm prisiau, mae’n ymddangos bod consensws eang ynghylch y canlynol: y gellir cyflwyno polisïau prisio; byddant yn codi pris rhai cynhyrchion; maent yn cyfrannu at ostyngiadau mewn defnydd cyffredinol; ac maent yn debygol o gyfrannu at ostyngiad mewn niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.

---

99 Adolygiad 24 mis Isafbris am alcohol yng Nghymru. Llywodraeth Cymru.
100 Sheffield Alcohol Research Group - Publications
101 Ysgol Iechyd ac Ymchwil Gysylltiedig 2018 yng Nghymru MPA modelu terfynol. Llywodraeth Cymru.

## Casgliad

5.36 Mae’r bennod hon wedi amlinellu tair ffynhonnell dystiolaeth ehangach ynghylch isafswm prisiau: profiad cynhwysfawr yr Alban; gweithredu mewn awdurdodaethau eraill; ac adroddiadau yn y llenyddiaeth (yn enwedig deunydd academaidd a adolygwyd gan gymheiriaid).

5.37 O’i ystyried yn gyffredinol, mae’r dystiolaeth hon yn cyfeirio’n gyffredinol at isafbris yn cyfrannu at leihau argaeledd cynnyrch alcohol rhad, y defnydd gan y boblogaeth yn gyffredinol, a rhai mathau o niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.

**Tabl 5.1: Crynodeb o themâu'r llenyddiaeth a’r prif negeseuon**

| Thema | Math y ffynhonnell | Neges |
|---|---|---|
| Pris fel mecanwaith polisi | • Ymchwil ac adolygiadau polisi<br>• Adolygiadau o dystiolaeth systematig | • Mae polisïau prisio alcohol yn ddull effeithiol o leihau niwed sy’n gysylltiedig ag alcohol.<br>• Mae angen gwreiddio dulliau polisi prisio mewn ystod eang o fesurau polisi alcohol. |
| Newidiadau disgwyliedig (prisiau a defnydd) o ganlyniad i unrhyw weithredu polisi | • Adroddiadau modelu<br>• Astudiaethau gweithredu cyn polisi<br>• Data safonau masnach | • Gellir cydymffurfio â pholisïau alcohol a’u rhoi ar waith yn llwyddiannus. |
| Gwir newidiadau (prisiau a defnydd) ar ôl cyflwyno polisi | • Dadansoddi data gwerthiannau<br>• Adroddiadau uniongyrchol (ansoddol ac ansoddol) gan yfwyr<br>• Gwerthusiadau terfynol Cymru a’r Alban | • Mae prisiau’n newid wrth weithredu polisïau, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn cynnyrch alcohol rhad iawn.<br>• Mae cynnydd mewn prisiau yn arwain at newidiadau mewn ymddygiad prynu ac argaeledd cynnyrch.<br>• Gostyngiadau y gellir eu gweld o ran prynu ymysg y boblogaeth yn gyffredinol ac felly defnydd tybiedig. |
| Effaith ar boblogaethau penodol (h.y. digartref, pyliau o yfed trwm, ceisio triniaeth, dibynyddion ac ati) | • Adroddiadau uniongyrchol (meintiol ac ansoddol) gan boblogaethau penodol o yfwyr a/neu weithwyr | • Mae llawer o yfwyr/grwpiau o boblogaethau yn dweud nad oes effaith o ganlyniad i isafswm pris (nid yw’r cynnyrch o ddewis yn cael ei effeithio, mae lefelau incwm yn ddigon uchel, nid yw’r pris yn ffactor mewn yfed ac ati). |

| | | |
|---|---|---|
| | proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw<br>• Gwerthusiadau terfynol Cymru a'r Alban | • Mae rhai poblogaethau'n dweud eu bod yn cael trafferth rheoli fforddiadwyedd alcohol gyda chynnydd mewn prisiau (h.y. poblogaethau dibynnol neu incwm isel). |
| Cynnal fforddiadwyedd | • Adroddiadau uniongyrchol (meintiol ac ansoddol) gan boblogaethau penodol o yfwyr a/neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw<br>• Gwerthusiadau terfynol Cymru a'r Alban | • Mae llawer o yfwyr yn newid rhwng gwahanol gynhyrchion a'r math o alcohol er mwyn yfed cymaint ag y bo modd o fewn y gyllideb.<br>• Mae mecanweithiau ymdopi yn aml yn golygu ymestyn ymddygiad a oedd yn bodoli cyn gweithredu polisi; h.y. benthyca, defnyddio dyled, mynd heb fwyd, peidio â thalu biliau na rhent.<br>• Mae newid o alcohol i ddefnyddio cyffuriau eraill yn gysylltiedig yn bennaf â'r rheini a oedd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau.<br>• Ychydig iawn o dystiolaeth sydd am droseddu, prynu alcohol anghyfreithlon, dwyn o siopau ac ati i gynnal fforddiadwyedd.<br>• Mae rhywfaint o dystiolaeth o brynu trawsffiniol yn achos y rheini sydd ag incwm a thrafnidiaeth/cyfle ac agosrwydd at y ffin. |
| Gwir effaith ac effaith ddisgwyliedig ar ymddygiadau eraill | • Troseddau arferol, setiau data iechyd ayb. | • Set gymysg o ganlyniadau, gyda thrafodaethau academaidd ychwanegol a sylwebaeth am ddilysrwydd ystadegol. |
| Cyfyngiadau | • Llenyddiaeth polisi ehangach<br>• Astudiaethau ar ystyriaethau economaidd, iechyd a gofal cymdeithasol eraill gan gynnwys cwestiynau am ddefnyddio alcohol<br>• Gwerthusiadau terfynol Cymru a'r Alban | • Mae'r maes gwerthuso yn flêr:<br>  ○ Fforddiadwyedd yr effeithir arno gan fudd-daliadau, chwyddiant, economïau byd-eang, pandemig ac ati<br>  ○ Rôl ffactorau eraill wrth lunio polisi alcohol, ymddygiad yfed ac arferion prynu. |

5.38 Mae dadleuon o blaid, a thystiolaeth am, effaith bosibl isafswm prisiau alcohol yn dod yn fwyfwy clir[102].

5.39 Mae gweithredu MPA yng Nghymru a'i set bwrpasol o werthusiadau yn ychwanegu at y darlun hwn. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y dystiolaeth a'r ddealltwriaeth o MPA.

5.40 Mae sylfaen dystiolaeth Cymru ac yn ehangach yn cyfeirio at yr effeithiau gweladwy ar unwaith ar brisiau, cynnyrch ac yfed yn gyffredinol, gan gydnabod yr angen am ddehongliad mwy cynnil o'r effaith ar boblogaethau penodol ac unrhyw ostyngiad mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r pwynt olaf yn cael ei gymhlethu gan lawer o ystyriaethau cyd-destunol critigol, sy'n sail i ffocws y bennod nesaf.

[102] Anderson 2024 -Why is MUP not more widely implemented BMJ

# 6. Y cymhlethdodau

**Crynodeb:**

- Nid yw MPA yn cael ei weithredu mewn gwactod ac mae amrywiaeth o ffactorau'n effeithio ar agweddau tuag at alcohol, ei bris, a phatrymau prynu ac yfed.
- Yn gyffredinol, mae'r ffactorau hyn yn lliniaru, gwanhau, chwyddo, negyddu, neu guddio unrhyw effeithiau MPA amlwg.
- Mae hyn yn golygu bod gwerthuso MPA yn 'anniben'.
- Mae'r cymhlethdodau hyn yr un mor berthnasol i werthusiad MPA Cymru.

### Cyflwyniad

6.1 Nid yw polisi prisio alcohol yn cael ei weithredu mewn gwagle ac mae ystod o ystyriaethau allanol eraill yn effeithio ar brisiau alcohol, cynnyrch (argaeledd a fformiwleiddiad - maint a chryfder), ymddygiad yfed ac agweddau tuag at y polisi[103].

6.2 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r prif ystyriaethau sy'n cymhlethu ein dealltwriaeth o newidiadau diweddar yng Nghymru o ran pris a fforddiadwyedd, patrymau yfed alcohol, a datblygu polisi.

6.3 Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o'r ffactorau cymhleth hyn, hyd yn oed pan fo eu dylanwad arnynt wedi'i gyfyngu gan ffiniau datganoli a ffactorau allanol.

### COVID-19

6.4 Mae hyd a lled effaith COVID-19 ar gymdeithas, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi'i gofnodi'n helaeth.

6.5 Ym mis Awst 2022, darparodd Llywodraeth Cymru fersiwn [archif] derfynol o'i dangosfwrdd COVID-19 ar-lein rhyngweithiol[104]. Mae hyn yn nodi ystod

[103] I gael darlun clir o hyn gweler Ffigurau 1.1. a 6.1 yn yr Adroddiad Terfynol ar yr Astudiaeth Adwerthwyr – a gyhoeddwyd ar yr un pryd â hwn [Pennod 4]
[104] COVID-19 yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW.CYMRU

o effeithiau niweidiol yn bennaf ar: farwolaethau; gweithgarwch y GIG; y farchnad lafur ac economaidd; a chymdeithas/gwasanaethau cyhoeddus.

6.6 Roedd gan COVID-19 nifer o oblygiadau o ran defnydd unigolion o alcohol ac ymddygiad prynu; yn fwyaf penodol, effeithio ar yfed, cyfyngu ar gyfleoedd prynu a'u newid, gan effeithio ar incwm a fforddiadwyedd, a darparu cymhellion a chyfleoedd gwahanol i yfed. Mae rhai o'r effeithiau hyn wedi aros i fod yn rhai hirdymor.

6.7 Roedd COVID-19 fel yr adroddwyd yn ein hadroddiad interim yn tynnu sylw oddi ar yr MPA, gyda'r mesurau diogelu iechyd y cyhoedd cyntaf (cyfnod clo) yn dod o fewn wythnosau i weithredu polisi'r MPA. Roedd nodi rhai o effeithiau cynnar y polisi uniongyrchol yn heriol.

6.8 Arweiniodd y sefyllfa hon at Lywodraeth Cymru yn comisiynu adroddiad ychwanegol yn edrych ar yr effaith ar y boblogaeth ehangach o yfwyr i werthuso'r berthynas uniongyrchol hwn ac unrhyw ryngweithio gweladwy ac effaith COVID-19 ar yfed alcohol ac MPA[105]. Nodir prif negeseuon yr adroddiad hwnnw ym mhennod 6 ein hadroddiad interim[106].

6.9 Roedd astudiaeth Adwerthwyr Cymru a nifer o werthusiadau'r Alban yn cynnwys rhywfaint o gymariaethau â data ystadegol Lloegr ar gyfer cyfnod COVID-19, lle gwelwyd effeithiau tebyg yn sgil y pandemig, ond ni roddwyd polisi pris uned alcohol ar waith. Roedd pob un yn awgrymu effaith gadarnhaol MPA yng nghyd-destun methodoleg cymharu arbrofion naturiol.

6.10 Fodd bynnag, un o'r negeseuon sydd wedi aros yn gyson dros y cyfnod gwerthuso cyfan, yw bod COVID-19 yn, ac wedi bod yn 'ddigwyddiad' llawer mwy na chyflwyno MPA. Mae hyn wedi golygu nad yw gwerthuso effaith MPA yng Nghymru wedi cael yr un ffocws na ffenestr lân â chyflwyno MUP yr Alban, er y gellir dadlau o hyd y gellir defnyddio Lloegr fel 'rheolydd'.

6.11 Yn fwyaf amlwg, roedd yn golygu bod 'dadansoddi' rhywfaint o'r data a gwneud sylwadau ar unrhyw ganlyniadau amlwg y polisi y tu hwnt i gydymffurfio, pris a newid cynnyrch, yn anodd iawn. Fel y nodir isod, mae

105 Effaith COVID-19 a'r isafbris am alcohol: effaith ar y boblogaeth ehangach LLYW CYMRU
106 Dadansoddiad o Gyfraniad - Adroddiad Interim

fforddiadwyedd alcohol hefyd wedi cael ei waethygu ymhellach gan brofiadau o dlodi oherwydd yr ‘argyfwng costau byw’, chwyddiant, a newidiadau mewn tollau cartref.

6.12 Wedi dweud hynny, ac o’i ystyried yn gyffredinol, mae’n bosibl awgrymu rhai negeseuon craidd am COVID-19 a’i berthynas ag yfed alcohol ac MPA yn benodol, a gellir crynhoi’r rhain fel a ganlyn: (i) Mae COVID-19 wedi bod yn gyd-sylfaenydd ar gyfer y gwerthusiad; (ii) gallai fod yn ffactor mwy o ran newid ymddygiad yfed; (iii) roedd wedi arwain at newid yn y ffordd roedd gwasanaethau’n cael eu defnyddio a’u darparu; (iv) arweiniodd at rai newidiadau tymor hir mewn ymddygiad; ac (v) roedd cefnogaeth gadarnhaol i ddull gweithredu COVID-19 penodol Llywodraeth Cymru wedi arwain at gefnogaeth/cydymdeimlad â negeseuon penodol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys MPA. Am ddolenni i dystiolaeth gweler gwaith cynharach yn y gwerthusiad[107].

**Costau Byw [Fforddiadwyedd]**

6.13 Ers cyflwyno MPA yng Nghymru (2020-2024), mae’r cyfnod wedi cael ei nodweddu’n aml fel un o galedi neu argyfwng costau byw. Mae toriadau mewn budd-daliadau, Brexit, newid yn yr hinsawdd, chwyddiant, ansefydlogrwydd economaidd, a’r rhyfel yn Wcráin ymhlith y rhesymau a nodwyd i egluro hyn[108][109].

6.14 Canlyniad net y pwysau economaidd a chost cyfunol hyn yw bod incwm unigolion, sefydliadau (darparwyr gwasanaeth) a llywodraeth (gan gynnwys Cymru) yn cael eu gwasgu.

6.15 Yn benodol, mae nifer o brosiectau ymchwil wedi dangos effaith negyddol yr ‘argyfwng costau byw’ ar iechyd meddyliol a chorfforol unigolion ar incwm isel, gan gynnwys cynnydd posibl yn y defnydd o alcohol a marwolaethau cysylltiedig[110][111].

[107] Effaith COVID-19 a'r isafbris am alcohol: effaith ar y boblogaeth ehangach LLYW CYMRU
[108] Kutlovic 2022 Europe View Sage Journal
[109] Webster and Neal 2022. Journal of Public Health.
[110] Williams 2022 Qualitative Study health and cost of living. Europe PMC.
[111] Broadbent et al 2023 Lancet

6.16 Mae'r tri phrosiect gwerthuso MPA arall yng Nghymru wedi parhau i gyfeirio at COVID-19, costau byw a chwyddiant a'u heffaith ar ganlyniadau. Mae'r ddau ddigwyddiad olaf wedi bod yn fwy amlwg yn ystod yr ail a'r drydedd don o gasglu data.

### Safbwyntiau polisi

6.17 Er ei bod yn ymddangos bod ymwybyddiaeth o'r polisi wedi codi yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl ei weithredu, roedd lefel y ddealltwriaeth fanwl yn dal yn gyfyngedig ar draws pob grŵp o yfwyr, darparwyr gwasanaethau ac adwerthwyr. Mae'r don olaf o werthusiadau'n awgrymu bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o MPA yn dal yn dda ymysg adwerthwyr ond roedd wedi dirywio ymysg yfwyr a darparwyr gwasanaethau.

6.18 Mae llawer o'r ymatebwyr ar draws y gwerthusiadau wedi parhau i gefnogi'r polisi a'i botensial i leihau niwed, cael gwared ar gynnyrch rhad a newid tueddiadau ymddygiad o un genhedlaeth i'r llall.

6.19 Mynegwyd pryder yn yr holl werthusiadau ynghylch yr effaith amlwg ar yr yfwyr trymaf sydd hefyd ar incwm isel.

6.20 Yn 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad[112] a oedd yn dadansoddi canfyddiadau o donnau 2018 a 2020 Arolwg Omnibws Cymru ynghylch agweddau'r cyhoedd at MPA yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth ohono. Roedd yr adroddiad yn dangos bod ymwybyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer MPA wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd lleiafrif a oedd ag agwedd fwy negyddol tuag at MPA ac a oedd yn credu na fyddai o reidrwydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

### Y Diwydiant Alcohol

6.21 Mae alcohol yn gynnyrch sydd ar gael yn gyfreithiol i ddefnyddwyr. O'r herwydd, mae argaeledd, marchnata a phris yn adlewyrchu camau gweithredu'r diwydiant cymaint ag y mae'n ei wneud ym mholisi'r llywodraeth. Mae'r diwydiant alcohol (yn enwedig cynhyrchwyr ac adwerthwyr ar raddfa fwy a chorfforaethol) wedi bod yn her gyson i unrhyw MPA sy'n cael ei gyflwyno ar draws nifer o awdurdodaethau ac mae'n

[112] 2023 Agweddau'r Cyhoedd at MPA. Llywodraeth Cymru.

parhau i geisio lleihau effaith y polisi drwy weithgareddau marchnata a newidiadau i gynnyrch.

6.22 Mae'r ffaith bod y diwydiant alcohol yn chwaraewr gwleidyddol mawr bellach wedi dod yn ystyriaeth polisi ac ymchwil sydd wedi hen ennill ei phlwyf, gyda chymariaethau o ymddygiad y diwydiant yn aml yn cael eu gwneud â rhai diwydiannau eraill sy'n ymwneud â thrafodaeth a pholisi iechyd y cyhoedd, fel bwyd, gamblo neu ysmygu[113]. Roedd ein hadroddiad interim yn cynnwys disgrifiad manwl o ymddygiadau perthnasol[114].

6.23 Mae'r ymddygiad hwn wedi parhau, fel y gwelwyd yn heriau diweddar y Diwydiant i werthusiad terfynol yr isafbris uned yn yr Alban ac unrhyw symudiad i gadw'r polisi[115][116].

6.24 Mae ymddygiad y diwydiant alcohol wedi cael yr effaith o greu petruster wleidyddol ac amharodrwydd rheoleiddio o ran datblygu a gweithredu polisi mewn perthynas ag alcohol[117]. Awgrymwyd bod y pwysau i gyflwyno'r polisi gyda'r 'cymal machlud'[118] anarferol yn cynrychioli pŵer y diwydiant gan ei fod yn gyfle pellach i'r diwydiant herio.

6.25 Mae gweithgareddau corfforaethol yn canolbwyntio'n eithaf naturiol ar enillion y diwydiant. Gellir crynhoi elfen bwysig o ymarfer corfforaethol fel rhywbeth sy'n canolbwyntio ar reoli bygythiadau i fuddiannau masnachol (h.y. elw[119]). Er y dylid nodi bod rôl gymharol llai y diwydiant yng Nghymru, gyda'i ormod o bwyslais ar Holyrood (Yr Alban) a San Steffan (Lloegr), yn cael ei awgrymu fel ffactor cyfrannol a oedd yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu MPA[120]. Ar ben hynny, sefydlwyd perthynas fwy cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru a changen adwerthu'r diwydiant yn ystod cyfnod gweithredu'r MPA.

---

[113] World Health Organization 2024 Commercial Determinants
[114] Adolygiad 24 mis MPA. Llywodraeth Cymru.
[115] Scottish Government 2024 Analysis of consultation responses
[116] SHAAP 2024 Commentary on Scottish Parliament evidence session.
[117] Hawkins and McCambridge 2020 'Tied up in a legal mess':Hawkins and McCambridge 2020 'Tied up in a legal mess': The alcohol industry's use of litigation. Edinburgh University Press.
[118] Sunset Clauses in International Law and their Consequences for EU Law (europa.eu) (dolen uniongyrchol i'r PDF)
[119] McCambridge et al 2018 Alcohol industry involvement in policymaking. PubMed.
[120] Lesch and McCambridge 2021 Reconceptualising Alcohol Policy Decision Making. Taylor & Francis Open Select.

6.26 Dyma'r hyn y mae Wilt yn ei ddisgrifio fel 'commodification and deregulation by Big Alcohol' which has successfully maintained self-regulation and offloaded responsibility for harm on 'problem' users 'especially through the discourse of "responsible drinking"'[121].

6.27 Mae'n bwysig nodi bod y sylwadau hyn am y diwydiant alcohol yn cyfeirio at ddiwydiannau byd-eang corfforaethol mwy o ran cynhyrchu a manwerthu. Mae angen taro cydbwysedd mewn sgyrsiau o'r fath gan fod gan gynhyrchwyr alcohol cynaliadwy ar raddfa fach lleol a manwerthwyr lleol (tafarnau, siopau a bwytai) i gyd rôl gadarnhaol i'w chwarae ym mywyd cymunedol Cymru a'r diwydiant twristiaeth gwerthfawr. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y tri gofyniad sy'n cystadlu â'i gilydd o ran niwed i iechyd o ganlyniad i alcohol, twristiaeth/diwydiant yng Nghymru, a'r hyn y cyfeirir ato'n aml fel yr Economi Min Nos[122].

6.28 Y casgliad yw bod gan y diwydiant alcohol ddylanwad, ond nid yw ystod hyn heb ei gyfyngiadau. Byddai'r llenyddiaeth yn awgrymu bod mwy o ddylanwadau yn yr Alban ac Iwerddon nag yng Nghymru. Gallai hyn adlewyrchu llai o amlygrwydd gan nad yw llawer o'u meysydd gweithredol wedi'u datganoli i Gymru yn unig, ac o ganlyniad maent yn digwydd yn San Steffan. Gall hefyd adlewyrchu pwysigrwydd cymeriad penodol sefydliadau gwleidyddol Cymru a chymuned polisi iechyd y cyhoedd sy'n cefnogi'r gwaith o fframio MPA[123][124].

### Y Cyfryngau

6.29 Mae llawer o'r diwydiant alcohol yn ceisio atal neu wella (o'u plaid) polisi alcohol cyhoeddus, gan gynnwys datblygiadau prisio, ac mae wedi defnyddio'r cyfryngau i gyfleu ei safbwyntiau.[125][126] Cyfeirir at hyn yn aml fel

---

[121] Wilt, J. (2022). Drinking Up the Revolution: How to Smash Big Alcohol and Reclaim Working-Class Joy. Repeater Books.
[122] Fitzgerald et al 2024 Alcohol Policy Sweet Spots. International Journal of Drug Policy.
[123] Anderson 2024 -Why is MUP not more widely implemented BMJ
[124] Full article: Policy communities, devolution and policy transfer: The case of alcohol pricing in Wales (tandfonline.com)
[125] Katikireddi, Hilton How did policy actors use mass media to influence the Scottish alcohol minimum unit pricing debate? Comparative analysis of newspapers, evidence submissions and interviews. Informa Healthcare.
[126] Implications for alcohol minimum unit pricing advocacy: What can we learn for public health from UK newsprint coverage of key claim-makers in the policy debate? - ScienceDirect

rhan o'r cynnydd mewn polareiddio/gwleidyddoli, a llai o ddefnydd o newyddiaduraeth (gytbwys) sy'n seiliedig ar dystiolaeth, neu sydd weithiau'n cael ei dybio, fel dirywiad yn safonau'r cyfryngau. Er hynny gall y cyfryngau hefyd chwarae rhan gadarnhaol mewn negeseuon hybu iechyd llwyddiannus.

6.30 Enghreifftiau o ddefnyddio'r cyfryngau i gwestiynu effeithiolrwydd MPA oedd rhai galwadau amlwg am adolygiad, yn dilyn defnydd Fforwm Cyffuriau'r Alban o gyfryngau ar ôl rhyddhau ffigurau marwolaethau yr Alban y gellir eu priodoli i gyffuriau ar gyfer 2022[127][128], neu'r honiadau diweddar o golli llu o swyddi os bydd yr Alban yn bwrw ymlaen â phris 65ppu diwygiedig[129].

6.31 Dangoswyd bod safbwyntiau wedi'u polareiddio (diddordebau personol) yn aros yn gyson rhwng cefnogwyr a gwrthwynebwyr isafswm prisiau, gydag ychydig iawn o newid drwy drafod a lleoli ar gyfryngau cyhoeddus.[130]

### Trawsffiniol

6.32 Mae diffyg polisi MPA mewn awdurdodaethau cyfagos, yn enwedig yn Lloegr gan gyfeirio at bolisi yng Nghymru a'r Alban, wedi codi pryderon ynghylch gweithgarwch siopa trawsffiniol ar economi Cymru, yn enwedig yr effaith ar adwerthwyr bach sy'n gweithredu ar unrhyw ffin o'r fath, gan fod yfwyr o bosibl yn chwilio am alcohol yn rhatach yn eu cymunedau cyfagos.

6.33 Mae'r gwerthusiadau yng Nghymru wedi dangos bod rhywfaint o siopa ar draws ffiniau'n digwydd, ond nid mewn unrhyw swmp sylweddol i effeithio ar batrymau prynu cyffredinol [gweler **Pennod 4**] ac mae darlun tebyg yn dod i'r amlwg yn yr Alban [gweler **Pennod 5**]. Mae adroddiadau gofalus hefyd yn dod i'r amlwg mewn perthynas ag Iwerddon a Gogledd Iwerddon[131]. Roedd nifer yr unigolion a oedd yn gwneud hynny yn fach mewn perthynas â'r boblogaeth yn gyffredinol. Lle mae wedi digwydd, mae

---

[127] Call for review of minimum alcohol pricing in Wales after link to drug deaths – Swansea Bay News
[128] Welsh Conservatives call for review of minimum alcohol pricing after links to drug deaths (nation.cymru)
[129] Daily Record Ebrill 2024
[130] Implications for alcohol minimum unit pricing advocacy: What can we learn for public health from UK newsprint coverage of key claim-makers in the policy debate? - ScienceDirect
[131] Donnelley 2022 Irish Cross Border shopping. Irish Mirror.

wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n byw'n agos at y ffin ac sydd â'r modd (h.y. car ac incwm) a'r cyfle (h.y. amser) i fanteisio ar unrhyw fudd ariannol posibl a gynigir gan daith drawsffiniol.

6.34 Yng Nghymru, mae'n ymddangos bod unrhyw siopa trawsffiniol wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n agos at y ffin h.y. Glannau Dyfrdwy/Wrecsam, cymunedau ar y ffin ym Mhowys, a Sir Fynwy. Byddai'n rhaid i'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng cynnyrch alcohol Cymru a Lloegr fod yn sylweddol uwch er mwyn ysgogi ymddygiad torfol.[132]

**Anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol**

6.35 Mae isafbris alcohol yn ymwneud â fforddiadwyedd. O'r herwydd, mae ystyriaethau economaidd cymdeithasol ehangach a phersonol yn ffactorau pwysig o ran effaith gymharol unrhyw bolisi prisio alcohol.

**Economeg bersonol**

6.36 Mae adroddiadau gwerthuso Cymru a llawer o'r Alban wedi canfod, er gwaethaf cyffredinolrwydd polisïau isafswm prisiau (h.y. maent yn effeithio ar bris y cynnyrch sydd ar gael i bawb ac sy'n cael eu prynu ganddynt), bod gwahaniaeth mewn incwm yn ffactor sylweddol yn y ffordd y mae polisïau o'r fath yn cael eu profi. Mae effaith polisïau o'r fath yn fwy ac yn fwy amlwg ar y rheini sydd ar incwm isel.

6.37 Mae grwpiau incwm isel yn cynnwys llawer o'r yfwyr dibynnol a digartref a oedd, cyn MPA, yn dibynnu ar gynnyrch alcohol rhad, seidr a lager yn benodol, i wneud eu hyfed yn fforddiadwy. O ystyried yr effaith ar y grŵp hwn, mae'r gwerthusiad hwn yn tynnu sylw at yr angen i leoli polisi prisio mewn cynlluniau ehangach. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod polisi prisio alcohol yn beth drwg, ond yn hytrach mae'n pwysleisio'r angen am bolisïau cyfiawnder cymdeithasol ehangach sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o'r fath.

6.38 Grŵp incwm isel arall yw'r rheini sy'n defnyddio'r system fudd-daliadau. Mae newidiadau amrywiol wedi cael eu gwneud i Gredyd Cynhwysol a Budd-dal Tai ers cyflwyno MPA. Mae'r penderfyniadau ynghylch y

[132] Enghreifftiau manwl yn adroddiad terfynol Lot 3.

manteision hyn y tu hwnt i Lywodraeth Cymru ond mae iddynt oblygiadau i unigolion sy'n byw yng Nghymru. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod talu symiau misol o dan Gredyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai yn uniongyrchol i unigolion wedi cael effaith negyddol ar yfwyr dibynnol, fel mwy o gyfleoedd i wario symiau mawr ar alcohol ac yna'n peidio â thalu biliau eraill[133] [adroddiadau Triniaeth a'r Boblogaeth Gyffredinol amrywiol – **Tabl 4.2**]. Dadleuwyd hefyd fod sancsiynau sy'n deillio o hyn wedi arwain at lefelau uwch o amddifadedd[134,135,136].

6.39 Mae effaith gronnus Brexit, COVID-19, yr argyfwng 'costau byw' a chwyddiant wedi cael effaith anghymesur iawn ar y rheini sydd ar incwm isel.

6.40 O ystyried ei bod yn ymddangos bod MPA yn effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd ar incwm is, a bod mwy ohonynt, mae'n bosibl bod y canfyddiad bod MPA yn targedu'r rheini sydd ar incwm isel wedi dod yn fwy amlwg (gweler **adroddiadau cyn gweithredu amrywiol, interim a Lot 3 a 4 terfynol** sy'n edrych ar yr effeithiau hyn).

**Economeg gymdeithasol**

6.41 Mae'r argyfwng costau byw wedi cynrychioli cyfnod o chwyddiant dwys (10% ar adegau yn ystod y gwerthusiad hwn). Er bod costau tanwydd yn ffactor cyfrannol sylweddol yma, mae hyn yn aml yn cuddio pwysau chwyddiant mwy cyffredinol. Mae'n werth ystyried bod cyfnod o chwyddiant yn gysylltiedig â chodi prisiau'n gyffredinol fel bod unrhyw gynnydd ym mhris alcohol o ganlyniad i MPA yn gallu cael ei gladdu oherwydd y disgwylir i fasged o nwyddau gostio mwy.

6.42 Mae economeg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â COVID-19, yn ffactor enfawr arall, yn enwedig mewn meysydd sy'n canolbwyntio ar bris cynnyrch a fforddiadwyedd. Daw'n amlwg ei fod wedi gwneud y dirwedd gyfan yn fwy

133 Evaluating the impact of Minimum Unit Pricing in Scotland on people who are drinking at harmful levels - Publications - Public Health Scotland
134 In-work Universal Credit: Claimant Experiences of Conditionality Mismatches and Counterproductive Benefit Sanctions | Journal of Social Policy | Cambridge Core
135 Impact of Universal Credit in North East England: a qualitative study of claimants and support staff - PMC (nih.gov)
136 Full article: Universal Credit, Lone Mothers and Poverty: Some Ethical Challenges for Social Work with Children and Families (tandfonline.com)

cymhleth, ac yn sicr mae'n ychwanegu elfen ychwanegol (fwy anodd) at unrhyw sgyrsiau codi prisiau sylfaenol a/neu weithredu hynny. Mae hyn yn rhan o annibendod gwerthusiadau o'r fath[137,138].

6.43 Ceir hefyd lawer o lenyddiaeth berswadiol sy'n mynegi'r angen i ddeall defnydd hen ffasiwn a phroblemus o alcohol a chyffuriau eraill fel arwydd bwriadol o gymdeithasau cyfalafol a byd-eang mwy sy'n arwain at ddadleoli ac ymylu unigolion a chymunedau. Mae'r dadleuon hyn yn awgrymu bod llawer o gyfyngiadau yn perthyn i'r dulliau presennol o weithredu ym maes polisi alcohol a pholisïau cyffuriau eraill.[139]

**Newidiadau (neu beidio) mewn Treth**

6.44 Mae isafbris am alcohol yn aml yn cael ei gymharu'n ffafriol â dulliau trethu uniongyrchol. Yn wir, roedd modelu yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2018 yn dadlau bod angen newidiadau mewn treth ar lefelau'r DU ar y pryd i gyfateb i effaith 50ppu[140].

6.45 Y tro diwethaf i ni adrodd, nid oedd lefelau treth y DU (tollau a TAW) ar alcohol wedi newid dros y degawd diwethaf. Mae treth alcohol i fod i gynyddu'n flynyddol yn ôl cyfradd y Mynegai Prisiau Manwerthu. Fodd bynnag, yn ystod y deng mlynedd diwethaf, dim ond unwaith y mae hyn wedi digwydd, yn 2017/18, ac fel arall mae wedi cael ei rewi neu ei ostwng. Mae hyn yn cael yr effaith o wneud alcohol yn fwy fforddiadwy mewn termau real os, er enghraifft, addasir codiadau incwm neu chwyddiant[141].[142]

6.46 Ym mis Awst 2023, newidiodd Llywodraeth y DU y system Toll Gartref Alcohol[143,144]. Prif effaith hyn oedd ail-alinio toll mewn perthynas ag ABV rhai cynhyrchion. Roedd y gwahaniaeth hwn rhwng cryfder cynnyrch yn

---

137 Robinson et al 2023 Messiness of natural experiments. Society for the Study of Addiction.
138 Taylor et al 2024 Minimum Price, Inflation and Index linking. Society for the Study of Addiction.
139 Alexander, B. (2010). The globalisation of addiction: A study in poverty of the spirit. Oxford: Oxford University Press; Davies, J. (2021). Sedated: How modern capitalism created our mental health crisis. Llundain: Atlantic; and Johnson, H.R (2016). Firewater: How alcohol is killing my community (and yours). University of Regina Press.
140 Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol. Llywodraeth Cymru.
141 Angus, Henney 2019 Modelling Alcohol Duty impacts. Institute of Alcohol Studies.
142 Institute of Alcohol Studies 2002 Alcohol Alert Newsletter
143 House of Commons Library 2024 Alcohol Excise Duty briefing
144 Institute for Alcohol Studies Spring-Budget-Analysis-2023

gwneud cwrw cryfder is, seidr, a lager yn gymharol fwy fforddiadwy. O ystyried bod yr adroddiad hwn eisoes wedi tynnu sylw at effaith cynnydd mewn prisiau, tollau a threthi o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, nid yw'n syndod bod hyn yn cael ei groesawu'n gyffredinol gan y rheini sy'n ymwneud â hybu iechyd alcohol[145]. Gallai'r cyfraddau treth gwahaniaethol newydd hyn arwain at ailffurfio ABV yn y diwydiant mewn cynhyrchion cryfach sy'n dod o fewn y bandiau tollau diwygiedig[146]. Effaith net hyn mewn perthynas ag MPA yng Nghymru fel y nodwyd uchod ym **Mhennod 4** oedd rhywfaint o gulhau'r bwlch rhwng prisiau alcohol adwerthu oddi ar y safle yng Nghymru a Lloegr.

6.47 Ar wahân i'r newid hwn, mewn dwy gyllideb ddilynol mae'r doll gyffredinol wedi'i rhewi, yn hytrach na chynyddu, gyda'r 'codiad' tybiedig yn unol â'r Mynegai prisiau manwerthu[147]. Mae safbwynt Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn un ble mae alcohol yn gynnyrch cymharol fwy fforddiadwy o'r naill flwyddyn i'r llall.

6.48 O fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) mae polisïau trethu alcohol gwahanol iawn. Mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig ynghylch a yw'r trethi hyn wedi'u cynllunio i leihau niwed i iechyd y cyhoedd drwy sicrhau bod diodydd sy'n cynnwys mwy o alcohol yn cael eu trethu ar gyfraddau uwch, yn hytrach nag ymddangos eu bod yn adlewyrchu patrymau cynhyrchu ac yfed alcohol cenedlaethol.[148]

### Tueddiadau o un genhedlaeth i'r llall

6.49 Pan fydd polisi'n ymwneud â lleihau'r defnydd cyffredinol ymysg y boblogaeth, mae hefyd yn werth nodi bod defnydd o'r fath yn mynd drwy gylchoedd o newid rhwng cenedlaethau. Mae llawer o dystiolaeth i awgrymu bod patrwm yn dod i'r amlwg ymysg y boblogaeth o yfwyr iau sy'n yfed llai neu ddim yn yfed o gwbl [149,150](mae hyn yn aml yn ymestyn i

---

145 Alcohol Change UK 2023 - Excise Duty Change briefing
146 Burton et al 2024 Implications of Excise Duty Change. ScienceDirect.
147 House of Commons Library 2024 Alcohol Excise Duty briefing
148 Comparing alcohol taxation throughout the European Union - Angus - 2019 - Addiction - Wiley Online Library
149 Oldham et al Youth Drinking in Decline (sheffield.ac.uk)
150 Long waves of consumption or a unique social generation? Exploring recent declines in youth drinking: Addiction Research & Theory: Vol 28, No 3 (tandfonline.com)

ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon). Fodd bynnag, mae adroddiadau eraill yn nodi bod rhai patrymau yfed risg uchel yn parhau ymysg gwahanol grwpiau o bobl ifanc o fewn y tueddiadau hyn.

6.50 Pwysleisiodd un astudiaeth yn yr Alban nad oedd pris yn ffactor ym mhenderfyniadau pobl ifanc ynghylch yfed alcohol[151].

**Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Iechyd**

6.51 Mae canlyniadau cymdeithasol ac iechyd, gan gynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn gyson waeth i unigolion mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu dros y degawd diwethaf, ac mae bylchau mewn cyfoeth yn y DU yn parhau i ehangu. Mae modd adnabod y duedd hon yng Nghymru ar gyfer defnyddio alcohol a chyffuriau eraill[152]. Rhaid ystyried defnyddio alcohol, ei niwed anghymesur ymysg rhai poblogaethau, ac unrhyw ymateb polisi, yng ngolau hynny.

6.52 Mae gwerthusiadau wedi cadarnhau bod yfwyr sydd ag angen neu ddibyniaeth ymddangosiadol yn blaenoriaethu alcohol dros filiau eraill, a gyda'r holl ganlyniadau niweidiol posibl i'w hiechyd eu hunain ac iechyd aelodau eraill o'r teulu.

**Casgliad**

6.53 Er bod MPA yn ymwneud â fforddiadwyedd, polisïau alcohol cyffredinol a lleihau niwed, mae hefyd yn ystyried yr angen i leihau argaeledd (gweler **Pennod 2**). Mae hefyd yn werth nodi bod nifer yr adeiladau sydd â thrwyddedau i werthu alcohol yng Nghymru a Lloegr wedi cyrraedd eu lefel uchaf ers i gofnodion cymaradwy ddechrau yn 2008, gan gynnwys cynnydd o 31% rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2022. Mae'n bosibl y gallai cynnydd o'r fath mewn argaeledd wrthbwyso ymdrechion i leihau fforddiadwyedd yn negyddol[153].

[151] Health Scotland 2020 Briefing Children and Young Peoples study
[152] Iechyd Cyhoeddus Cymru 2022 Cloddio Data Camddefnyddio Sylweddau
[153] Alcohol and late night refreshment licensing England and Wales, year ending 31 March 2022 - GOV.UK (www.gov.uk)

6.54 Nid yw llawer o’r ffactorau a amlygwyd yn y bennod hon yn ymddangos yn amlwg yn unrhyw un o’r modelau Damcaniaeth Newid craidd ar gyfer MPA. Ar un ystyr, maent y tu hwnt i gysyniad syml achos ac effaith y rhesymeg dros y dulliau isafbris. Fodd bynnag, mae’n amlwg bod angen iddynt fod yn ystyriaethau gweithredol, ac o’r herwydd maent wedi bod yn weithredol o fewn ein model rhesymeg ac ystyriaethau (gweler **Pennod 3**).

6.55 Mae llawer o gynnwys y bennod hon wedi ein helpu i lunio un o’n casgliadau craidd bod unrhyw werthusiad o MPA yn anniben. Mae'r annibendod hwn, fel y nodwyd uchod, wedi'i gydnabod yn y gwerthusiad terfynol yn yr Alban[154] ac mewn llenyddiaeth academaidd sy'n dod i'r amlwg[155]. Dim ond gwaethygu’r cymhlethdodau hyn y mae gweithgareddau dwys y blynyddoedd diwethaf yn ei wneud, fel y disgrifir uchod. Mae llawer o ystyriaethau’n parhau y tu allan i ddylanwad uniongyrchol Llywodraeth Cymru ac maent yn adlewyrchu cyfyngiadau’r setliad datganoli presennol[156]. Rydym wedi adlewyrchu hyn yn fwriadol yn yr adroddiad hwn, gyda’r syniad penodol o bennod ar gymhlethdodau.

[154] Public Health Scotland Final Report Full
[155] Robinson et al 2023 Messiness of natural experiments. Society for the Study of Addiction.
[156] Lesch and McCambridge 2023 Pricing Policy in Wales. Taylor & Francis Online.

# 7. Trafodaeth

**Crynodeb**

- Mae digon o dystiolaeth dda mewn perthynas â dangosyddion gweithredu h.y. cydymffurfio, pris a newid cynnyrch.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth resymol sy'n dangos cefnogaeth agweddol i'r polisi ac sy'n awgrymu newid mewn ymddygiad (prynu a defnyddio) (sydd i'w briodoli'n rhannol i MPA).
- Ymddengys mai ychydig iawn o effaith y mae MPA wedi'i chael ar batrymau yfed yfwyr dibynnol, ac effaith niweidiol ar yr yfwyr hynny sydd ag incwm isel.
- Ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi bod o MPA yn creu neu'n cynyddu effeithiau niweidiol h.y. newid i gyffuriau, troseddu ac ati.

**Cyflwyniad**

7.1 Roedd **Penodau 4-6** yn amlinellu'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi dadleuon o blaid polisi isafswm prisiau. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau gweladwy cadarnhaol gweithredu MPA yng Nghymru. Gwelir yr effeithiau hyn yn aml mewn awdurdodaethau eraill ac adroddir arnynt yn y llenyddiaeth academaidd ehangach.

7.2 Mae'r penodau hefyd wedi amlinellu lle mae pryderon am effeithiau niweidiol (ar boblogaethau penodol yn bennaf yn hytrach na'r boblogaeth gyffredinol) a chyfyngiadau (sy'n cynnwys ffactorau a chyd-sylfaenwyr) canfyddiadau'r gwerthusiad.

7.3 Mae'r bennod hon yn cyfuno'r prif bwyntiau trafod sy'n codi o ddadansoddi'r dystiolaeth ar MPA yng Nghymru a'r defnydd cymharol o bolisïau prisio mewn mannau eraill hyd yma.

**Gweithredu'r Polisi**

7.4 Gellir disgrifio gweithredu MPA yng Nghymru fel rhywbeth llyfn ac effeithiol. Buasem yn awgrymu bod y polisi wedi dod i rym (newid amlwg mewn

prisiau ar rai cynhyrchion[157]) [gweler data Alcohol Change UK **Pennod 4** ac Atodiadau) a dilynwyd hynny gan lefelau uchel o gydymffurfio [gweler astudiaeth Adwerthwyr a data Alcohol Change UK ym **Mhenodau 4 a 5**].

7.5 Ceir tystiolaeth o ba mor hawdd yw gweithredu polisi a'r profiad bod isafswm pris yn cael gwared ar rai cynhyrchion rhatach, mewn awdurdodaethau eraill, modelu a llenyddiaeth ehangach [gweler **Pennod 5**].

**Ymddygiadau prynu a defnyddio**

7.6 Roedd yn ymddangos nad oedd yr MPA yn effeithio'n niweidiol ar y rhan fwyaf o yfwyr yng Nghymru ar y lefel 50ppu [gweler yr astudiaeth o'r boblogaeth gyffredinol a **Phennod 4** uchod]. O ganlyniad, prin oedd y dystiolaeth o newidiadau sylweddol mewn ymddygiad prynu a defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth.

7.7 Mae rhywfaint o dystiolaeth ddangosol bod y defnydd yng Nghymru yn gyffredinol [gweler **4.16** a thrwy ddefnyddio prynu fel procsi] wedi gostwng ar ôl yr MPA [**Pennod 4** – yn enwedig yr astudiaeth Adwerthwyr] a thystiolaeth amlwg bod isafbris uned yn lleihau'r defnydd yn yr Alban[158].

7.8 Mae'n ymddangos bod mwy o effaith ar y rheini sy'n yfed ar lefelau sy'n gyson â dibyniaeth neu driniaeth. Y elfen fwyaf amlwg yn y newidiadau a welwyd oedd newid oddi wrth y cynnyrch seidr oedd yn arfer bod yn rhad[159] tuag at wirodydd **[Tabl 4.3]**, gwin, a lager cryf, yn hytrach nag unrhyw ostyngiad yn y defnydd.

7.9 Mae tystiolaeth sy'n dangos bod MPA, ar gyfer yr yfwyr hynny sydd ar incwm isel, yn enwedig y rheini sy'n yfed cyfeintiau uwch, wedi cael effaith negyddol o ran straen ariannol cynyddol [Astudiaethau Triniaeth a'r Boblogaeth Gyffredinol – **Pennod 4**]. I'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd, roedd cynnal fforddiadwyedd fel arfer yn cael ei gyflawni drwy ymestyn y

[157] Bokhari et al 2024 - Economic Inquiry
[158] Holmes 2023 Analysis MUP Scotland. Society for the Study of Addiction.
[159] Bokhari et al 2024 - Economic Inquiry

mecanweithiau ymdopi presennol, a fyddai'n nodweddiadol yn golygu mynd heb fwyd neu beidio â talu biliau eraill[160].

### Niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol

7.10 Nid yw ystadegau ar gyfer mesurau niwed alcohol allweddol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a derbyniadau i'r ysbyty, [hyd yma] wedi dangos unrhyw ostyngiad yn y tueddiadau diweddar o ran cynnydd mewn niwed [161,162] [gweler **Pennod 4**].

7.11 Roedd gostyngiad amlwg yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn ystod 2020-2022, fodd bynnag, mae'n debyg bod hyn oherwydd effaith a chyfyngiadau COVID-19 yn hytrach nag MPA[163].

7.12 Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at bwysau acíwt ar niwed iechyd chymdeithasol, sy'n aml yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn costau byw ac effeithiau cyni ar ddarparu gwasanaethau [gweler **Pennod 6**].

### Cymhlethdodau

7.13 Mae mwy a mwy o lenyddiaeth sy'n cyfeirio at 'annibendod' gwerthusiadau sy'n seiliedig ar bolisi, ac mae hyn yn cynnwys isafswm prisiau ar gyfer alcohol [gweler **Atodiad 3**].

7.14 Mae cyfnod gweithredu'r MPA a'r gwerthusiad dilynol wedi gweld ffactorau sydd wedi cyfrannu at yr annibendod hwn, gan gynnwys 'cyni', newidiadau mewn tollau cartref, 'argyfwng costau byw', COVID-19, cyfleoedd siopa trawsffiniol, actorion yn y diwydiant, chwyddiant, a chyfyngiadau datganoli (ar farchnata a thrwyddedu alcohol).

7.15 Mae adroddiadau ar ôl gweithredu wedi tynnu sylw'n gyson at lawer o'r ffactorau hyn fel rhai sy'n chwarae rhan arwyddocaol iawn mewn newidiadau a dewisiadau ymddygiad [gweler **Penodau 4 i 6**]. Er enghraifft, mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ac amrywiol ar ymddygiad yfed

---

160 Livingston et al 2023 Expected and actual responses to MUP. Taylor & Francis Online.
161 Marwolaethau Cysylltiedig ag Alcohol Cymru 2001-2022. Statista.
162 Alcohol Change UK 2021 Alcohol Harm Statistics and Sources
163 Arferion yfed Cymru: faint sydd wedi newid ers yr isafswm prisiau ar gyfer alcohol? (Senedd. Cymru)

a defnydd unigolion, ac mae cynnydd mewn costau byw wedi gwneud unrhyw gynnydd mewn prisiau yn llai amlwg.

**Y polisi a niwed andwyol**

7.16 Nid yw cyfnod y gwerthusiad wedi gweld unrhyw un o'r ofnau tybiedig cychwynnol ynghylch niwed andwyol yn cael eu gwireddu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae hyn yn wir am yr ofn a fynegwyd y byddai yfwyr yn 'newid' i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon[164].

7.17 Er bod adroddiadau am ddefnyddio rhai mathau eraill o gyffuriau, troseddu, a chanlyniadau negyddol estynedig eraill, roedd y rhain ymysg y lleiafrif o yfwyr dibynnol yn bennaf yn hytrach na'r cyfan, ac yn aml roeddent yn cael eu dwysáu gan brofiadau sy'n gysylltiedig â iechyd a chymdeithas [gweler **Penodau 4 a 5**].

**Y camau nesaf**

7.18 Mae yfed alcohol a'i niwed cysylltiedig yn dal yn rhan sylweddol o dirwedd economaidd, iechyd a chymdeithasol Cymru.

7.19 Mae tystiolaeth ddangosol gynnar y gall MPA yng Nghymru gyfrannu at leihau'r niwed hwn. Mae'r ddwy bennod nesaf yn amlinellu'r prif negeseuon o'r gwerthusiad a'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru wrth i'r ddeddfwriaeth gyrraedd ei 'gymal machlud'.

.

[164]Ceir tystiolaeth o'r naratif hwn yn yr Astudiaeth Newid a gyhoeddwyd yn flaenorol, yr adroddiadau sylfaenol a thros dro y cyfeirir atynt ym Mhennod 4.

# 8. Prif Negeseuon a Chasgliadau

**Crynodeb**

- Mae set gymhleth o ystyriaethau sy'n gorgyffwrdd yn golygu bod llawer o'r negeseuon sy'n deillio o weithredu'r MPA yng Nghymru yn parhau'n gynnil.
- Yn gyffredinol, mae gweithredu'r polisi wedi bod yn llwyddiannus, gyda rhai effeithiau amlwg penodol, cytundeb cyffredinol, a thystiolaeth gyfyngedig o niwed eang.
- Mae pryder o hyd am boblogaethau penodol.
- Mae'n bosibl cael hyder mewn gwerthusiadau yng Nghymru oherwydd eu bod yn adlewyrchu canfyddiadau gwerthusiadau'r Alban.
- Mae angen i bris alcohol fod yn rhan o set ehangach a chynhwysfawr o ystyriaethau polisi.
- Dylanwadir ar gyfnod gwerthuso Cymru a pholisi alcohol yn fwy cyffredinol gan ystod o ystyriaethau cymhleth sy'n gorgyffwrdd.
- Efallai mai'r mater mwy heriol, a'r maes ar gyfer effaith polisi, o hyd yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd, iechyd a chymdeithasol ehangach.

**Cyflwyniad**

8.1 Fel y sefydlwyd drwy'r penodau blaenorol, mae gwerthuso gweithrediad MPA yng Nghymru wedi golygu cyfres gymhleth o ystyriaethau. Adlewyrchir hyn yn y dewis gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu'r dull Dadansoddiad o Gyfraniad hwn ar gyfer yr adroddiad terfynol.

8.2 Mae'r pecyn gwerthuso yng Nghymru wedi bod yn gymharol fach. Teimlwyd bod hyn yn briodol yng nghyd-destun: (i) Cymru yn dilyn yr Alban a gallu cymharu â'u gwerthusiad mwy cynhwysfawr; (ii) maint yr adnoddau gwerthuso sydd ar gael i Lywodraeth Cymru; a'r (iii) llenyddiaeth academaidd ryngwladol ehangach sydd eisoes yn dangos gwerth prisio fel elfen annatod o ddulliau polisi alcohol cyffredinol effeithiol.

8.3 Heb os, mae'r gwerthusiad hwn wedi bod yr hyn y gellir ei ddisgrifio fel 'anniben', gyda dim ond ychydig o effeithiau amlwg y gellir eu gweld a llawer o ganfyddiadau mwy cynnil eraill.

8.4 Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'n bosibl sefydlu nifer o negeseuon a chasgliadau clir, fel yr amlinellir yn y bennod hon.

**Y sylfaen dystiolaeth ehangach.**

8.5 Mae'r modelu ehangach, y llenyddiaeth academaidd, a'r gwerthusiadau mewn awdurdodaethau eraill yn dangos bod angen i lywodraethau ystyried pris (fforddiadwyedd) alcohol fel un o'r mecanweithiau allweddol ar gyfer gweithredu polisi alcohol yn llwyddiannus. Cyfeirir at bolisïau alcohol effeithiol o'r fath yn aml fel 'syniadau gorau'[165] neu 'mannau melys[166]'. Mae MPA yn parhau i fod yn un o 'syniadau gorau' Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer polisi alcohol effeithiol sy'n arwain at leihau niwed.

8.6 Roedd y gwerthusiad cynharach, mwy helaeth o MPA yn yr Alban ar 50ppu yn gadarnhaol ar y cyfan ac arweiniodd at Lywodraeth yr Alban yn mabwysiadu'r polisi y tu hwnt i'w chymal machlud, gyda phris diwygiedig o 65ppu.

**Y stori yng Nghymru**

8.7 Mae cyflwyno'r polisi, y ddeddfwriaeth, gweithredu'r isafswm sefydledig o 50ppu, a mabwysiadu a chydymffurfio gan adwerthwyr yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus. Mae'n amlwg yn arf ymarferol o fewn y stoc polisi alcohol.

8.8 O'u hystyried yn gyffredinol, mae'r holl werthusiadau yng Nghymru yn dangos cefnogaeth eang i'r polisi. Mae hyn i'w groesawu o ystyried yr effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol, yfed yn gyffredinol/niwed i iechyd, a chael gwared ar rai cynhyrchion alcohol rhad iawn.

8.9 Gellir gweld bod gan y polisi effeithiau amlwg y gellir eu gweld. Yn benodol: (i) cael gwared ar rai cynhyrchion rhad iawn (yn enwedig cyfeintiau mawr o seidr a lager rhad); (ii) cydymffurfiad clir o ran yr alcohol sy'n cael ei werthu

[165] World Health Organization 2017 Tackling NCDs -Best Buys
[166] Fitzgerald et al 2024 Alcohol Policy Sweet Spots. ScienceDirect.

gan adwerthwyr yng Nghymru ar yr isafswm pris neu’n uwch na hynny; (iii) gwahaniaethau amlwg rhwng ymddygiad adwerthu yng Nghymru a Lloegr; (iv) rhywfaint o newid ymaddasol gan gynhyrchwyr ac adwerthwyr o ran natur cynigion a chynhyrchion sydd ar gael yng Nghymru; a (v) rhywfaint o newid o ran prynu ( a defnydd tybiedig) o seidr a lager cryf a rhad i gyrfau eraill a gwin a gwirodydd.

8.10 Roedd un astudiaeth yn cymharu data gwerthiant yn ystod y pandemig (camau cynnar gweithredu) yng Nghymru â’r data yn Lloegr. Canfu fod cyflwyno MPA wedi arwain at gynnydd o 15% mewn prisiau trafodion a gostyngiad o 20% yn nifer cymharol yr alcohol a brynwyd, gyda gostyngiad cyffredinol mewn gwariant fesul cwsmer yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod[167].

8.11 Ychydig iawn o dystiolaeth sydd wedi bod yng Nghymru o niwed eang o ganlyniad uniongyrchol i MPA. Mae hyn wedi cynnwys y pryderon cyn gweithredu ynghylch y posibilrwydd o newid o alcohol i gyffuriau eraill.

8.12 Wedi dweud hynny, mae’r mynegi pryder ynghylch effaith y polisi ar grwpiau penodol o yfwyr trwm (a dibynnol) sydd hefyd ag incwm isel wedi parhau. Heb set ehangach o gymorth economaidd a darpariaeth gwasanaeth arall, ac o ystyried eu ‘hangen’ tybiedig i yfed, mae’r grŵp hwn yn addasu ei fecanweithiau ymdopi i barhau i wneud eu hyfed yn fforddiadwy. Ar gyfer y garfan hon o’r boblogaeth gyffredinol, gall hyn olygu eu bod yn peidio â thalu biliau neu fwyta bwyd a gall hefyd gael effaith ar eu teuluoedd.

8.13 Yn yr holl agweddau hyn, mae profiad Cymru o MPA, y gweithredu a’r gwerthuso, wedi taro tant yn gyson â rhai’r Alban. Yn y cyd-destun hwn, mae’n debygol iawn y bydd y set ehangach o ganlyniadau gwerthuso a brofwyd yn yr Alban wedi digwydd yng Nghymru.

[167] Bokhari et al 2024 - Economic Inquiry

### Ystyriaethau polisi

8.14 Dylai dulliau o brisio alcohol fod yn un o sawl dull polisi ar gyfer yfed alcohol a lleihau niwed a fabwysiedir gan lywodraethau. Mae angen i MPA fod yn rhan o set glir a chynhwysfawr o ddulliau polisi alcohol[168].

8.15 Dylai dulliau eraill gynnwys ystyried argaeledd a marchnata. Mae rhai, ond nid pob un, o'r mecanweithiau polisi yn y meysydd hyn wedi'u eu cadw gan Lywodraeth y DU, ac nid yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru. Serch hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ble a sut y gallant effeithio ar y ddau ffactor pwysig hyn sy'n effeithio ar yfed alcohol.

8.16 I rai, bydd y polisïau atal hyn yn dod yn rhy hwyr a bydd patrymau yfed niweidiol eisoes wedi datblygu. Mae'n bwysig hefyd bod yna set gynhwysfawr o ddarpariaethau hygyrch, priodol, amrywiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer lleihau niwed, triniaeth a gwasanaethau adfer yng Nghymru.

8.17 Mae'r effeithiau cymharol gyfyngedig, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn adlewyrchu'r lefel pris 50ppu ac mae'n un gochelgar i ddechrau. Er mai dyma'r lefel prisiau a ddewiswyd yn fwriadol i'w gweithredu, o ystyried yr amgylchedd economaidd sydd wedi newid yn gyflym, mae dadleuon cryf bod angen ei diweddaru'n awr [gweler **Pennod 4**].

8.18 Er gwaethaf effaith yr argyfwng 'costau byw' a'r problemau fforddiadwyedd a amlinellir ym **Mhennod 6**, mae alcohol wedi dod yn fwy fforddiadwy, nid yn llai, yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae unrhyw effaith bosibl o ganlyniad i'r isafswm pris yn cael ei herydu dros amser gan ffactorau fel chwyddiant a chostau byw cynyddol[169]. Bydd cynyddu'r pris i 65ppu, er enghraifft, ond yn golygu bod alcohol yn dychwelyd i'r un lefel fforddiadwyedd ag yn 2018, heb sôn am gyfnodau modelu cychwynnol 2009-10.

---

[168] Mae gan Sefydliad Iechyd y Byd ystod eang o ddogfennau cefnogol ar gyfer datblygu polisi - Sefydliad Iechyd y Byd - Alcohol

[169] Institute for Alcohol Studies 2024

8.19 Wedi dweud hynny, cydnabyddir bod yr hinsawdd economaidd-gymdeithasol bresennol yn un anodd i godi unrhyw brisiau, gan gynnwys isafbris am alcohol.

### Ffactorau sy'n cymhlethu

8.20 Nid yw yfed alcohol, polisi na phrisiau yn digwydd mewn gwactod. Maent yn aml yn cael eu heffeithio gan amrywiaeth o gyd-destunau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol eraill y tu hwnt i'r rheini sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol [gweler **Pennod 6**].

8.21 Yn ystod y cyfnod ers rhoi'r MPA ar waith, mae dwy o'r ystyriaethau pwysicaf wedi deillio o COVID-19 a'r cynnydd mewn costau byw.

8.22 Mae'r ddau ddigwyddiad hyn a'r ffactorau eraill wedi creu rhaniad rhwng effeithiau uniongyrchol amlwg MPA a'r hyn y gellir ei ddweud neu ei briodoli o ran effeithiau ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

### Anghydraddoldebau

8.23 Mae'n bwysig nodi bod MPA yn targedu fforddiadwyedd alcohol yn benodol, yn hytrach na chwmpasu pob agwedd ar bolisi alcohol neu fynd i'r afael â phob ystyriaeth o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

8.24 Mae fforddiadwyedd unrhyw gynnyrch yn effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd â'r incwm isaf ac nid yw MPA yn wahanol. Ni ddylai hyn fod yn rheswm dros wrthod gwerth MPA i ymyriadau polisi alcohol cyffredinol. Wedi'r cyfan, ni fyddai neb yn argymell bwydydd afiach rhad fel ateb i'r rheini sy'n profi tlodi bwyd.

8.25 Erbyn hyn, mae mwy o feddwl a dealltwriaeth o'r profiadau niferus y mae unigolion yn eu cael a sut maen nhw'n rhyngweithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn drwy fabwysiadu dull gweithredu Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer strategaeth yn hytrach na chyfres o ddulliau wedi'u dadgyfuno. O'r herwydd, mae'n bwysig nodi i lawer fod yfed alcohol yn ddull a fabwysiadwyd i ymdopi â phrofiadau niweidiol eraill sydd, yn eu tro, yn creu ei broblemau ei hun.

8.26 Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effaith andwyol niwed i iechyd, gan gynnwys rhai cysylltiedig ag alcohol, a'r gydberthynas uniongyrchol â

phrofiadau o anghydraddoldebau ehangach yn cynyddu[170]. Gall ymyriadau polisi ddiogelu iechyd yn sylweddol ac osgoi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd[171].

8.27 Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag alcohol, fel y nodwyd yn ein casgliad data terfynol:

> ‘Mae alcohol yn cynyddu niwed mewn cysylltiad â thlodi ac nid ydym wedi meddwl amdano mewn gwirionedd.’ [R10]

8.28 Mae dadl i awgrymu bod y profiadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i luniadau gwleidyddol a chymdeithasol gymaint, os nad mwy, ag y maent yn ganlyniad i ymddygiad unigol [172,173,174]. Yn benodol, mae marwolaethau oherwydd alcohol yn cael eu profi'n anghymesur ymysg rhai grwpiau[175] sy'n profi anghydraddoldebau ehangach[176].

8.29 Disgrifiwyd cymhlethdod mynd i'r afael â'r safbwyntiau ehangach hyn o ran cyfiawnder cymdeithasol yn yr arena wleidyddol yn gywir gan ddau o'n hymatebwyr [gweler **Pennod 4** hefyd]:

> ‘... oherwydd mae'n gyffredin iawn bod y bobl rwy'n gweithio gyda nhw yn cael trafferthion ariannol, bron bob amser ac mae hynny bob amser yn straen mawr yn eu bywydau...mae'n broblem tlodi ac incwm isel, ond mae hefyd yn ymwneud â lle gall pobl ddod o hyd i ffrydiau incwm...mae'n ymddangos i mi bod y mathau hynny o swyddi'n mynd yn anoddach ac yn anoddach dod o hyd iddynt... efallai wedyn ei fod yn dod yn sgwrs mor eang, dydyn ni ddim yn siarad am fanylion, ac nid wyf yn meddwl bod llawer o bobl yn hoffi hynny oherwydd nad ydych yn ei gysylltu ag adran. Dydych chi ddim yn ei gysylltu â maes penodol.’ [R9]

---

[170] Boyd et al 2021 Environmental Research and Public Health (mdpi.com)
[171] Broadbent et al 2023 The public health implications of the cost-of-living crisis: outlining mechanisms and modelling consequences. The Lancet Regional Health.
[172] Inckle 2020 Social Theory and Health (mdpi.com)
[173] Livingston 2024 Social Work and Social Sciences Review. Whiting & Birch.
[174] World Health Organization 2024 Commercial Determinants
[175] Angus et al 2020 Assessing the contribution of alcohol-specific causes to socio-economic inequalities. Wiley Online Library.
[176] Allison et al 2023 Deaths from alcohol-related liver disease in Lancet

> ‘Ac rwy’n credu mai’r hyn a wnaethom yma, gan rai o’r mathau o wleidyddion neu wleidyddion annibynnol a oedd yn cynrychioli cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig, oedd pryderu ynghylch gwthio teuluoedd incwm isel, neu deuluoedd lle mae yfed trwm, i fwy o anhawster nag yr oeddent ynddo yn barod, ac nid wyf yn credu ein bod wedi gwrando ar hynny’n ddigon gofalus fel llunwyr polisi. Rwy’n meddwl ein bod wedi cydnabod i raddau ei fod wedi digwydd, ond ni wnaethom feddwl am beth mae hynny yn ei olygu o ran cyfathrebu, beth mae’n ei olygu o ran cymorth, beth mae’n ei olygu o ran risg.’ [R10]

**Cyfyngiadau**

8.30 Rydym wedi amlinellu’r fframwaith a’r broses fethodolegol glir ar gyfer y gwerthusiad [gweler **Pennod 3**]. Er hynny, mae dadansoddi cyfraniad yn ei gwneud yn ofynnol i’r gwerthuswyr wneud synnwyr yn y pen draw o unrhyw ‘stori perfformiad’. Wrth wneud hynny, rydyn ni’n ymwybodol ein bod ni fel tîm wedi ymdrwytho’n ormodol mewn ystyriaethau polisi isafswm prisiau ers blynyddoedd lawer. Mewn sawl ffordd, gall gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o’r fath gael eu hystyried yn gryfder. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd nad yw ein dadansoddiad yn ddigon gwrthrychol. Rydyn ni wedi lliniaru hyn drwy ystyried grŵp cynghori, natur y rheini sy’n cael eu cyfweld [gweler **Pennod 4**], a thrwy sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei ategu gan gyfeiriadau helaeth (dolenni) at y sylfaen dystiolaeth ehangach.

8.31 Rydym wedi mynd ati’n fwriadol i gadw’r adroddiad hwn i hyd darllenadwy. Mae wedi golygu ein bod felly’n cynnwys llawer iawn o gyfeiriadau (troednodiadau) at y dystiolaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol yn hytrach na disgrifiadau manwl a fyddai’n arwain at ddogfen fwy o lawer.

**Casgliad**

8.32 Mae’r adroddiad hwn a’r bennod hon wedi tynnu sylw at y ffaith y gall yfed gormod o alcohol arwain at niwed. Mae angen amrywiaeth o bolisïau alcohol i fynd i’r afael â’r niwed hwn yn llwyddiannus. Dim ond un o’r polisïau gofynnol yw isafswm pris am alcohol, ond mae’n effeithiol o ran mynd i’r afael â’r niwed sy’n gysylltiedig â gwerthu alcohol rhad. Mae pris

alcohol yn broblem o ran fforddiadwyedd ac mae hynny, yn ei dro, yn gysylltiedig â lefelau incwm, costau byw eraill ac ystyriaethau tlodi. Mae'r persbectif ehangach hwn yn rhan o amgylchedd gwleidyddol sy'n destun dadlau.

8.33 Mewn sawl ffordd, mae'r rheswm amlwg dros gael polisi isafswm pris (niwed alcohol rhatach) a'r angen i ddarparu cymorth arall i'r rheini y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt (yfwyr dibynnol/incwm isel), yn cael ei grynhoi'n daclus gan un o'n ymatebwyr ym **Mhennod 4**:

> '...gwneud y polisi'n fwy effeithiol, neu ydych chi'n ceisio gwneud rhywbeth i ystyried yr anawsterau costau byw y mae pobl yn eu hwynebu ar hyn o bryd? Dwi'n meddwl bod hynny'n benderfyniad gwleidyddol anodd go iawn. Ond rydw i bob amser yn teimlo, os ydych chi eisiau helpu pobl gyda chostau byw, mae pethau llawer gwell y gallwch chi eu gwneud na gwneud alcohol yn rhatach.' [R7]

# 9. Y Camau Nesaf ac Argymhellion

**Crynodeb**

- Rhaid i Gymru nawr ddewis beth i'w wneud nesaf am MPA (a pholisïau eraill sy'n ymwneud ag alcohol). Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad cyffredinol yn cyfeirio at gefnogi adnewyddu'r ddeddfwriaeth MPA.
- Mae cwestiynau'n dal i fodoli am effaith y pris 50ppu gwreiddiol sy'n lleihau, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw pris priodol wrth symud ymlaen.
- Er mai penderfyniad gwleidyddol yw sefydlu isafswm pris am alcohol, bydd angen pris o 65ppu i gynnal y gwerth polisi presennol.

### Cyflwyniad

9.1 Roedd y bennod flaenorol yn amlinellu'r prif negeseuon ynghylch sut mae modd deall y ffordd mae MPA yn cael ei weithredu yng Nghymru ar hyn o bryd yng nghyd-destun newidiadau gweladwy, seiliau tystiolaeth ehangach ac ystyriaethau polisi alcohol yn gyffredinol.

9.2 Mae gan ddeddfwriaeth MPA Cymru, fel yr un sydd ar waith yn yr Alban, 'gymal machlud'. Pe na bai Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach, byddai'r ddeddfwriaeth a'r broses o roi'r polisi ar waith yn dod i ben ar 2 Mawrth 2026.

9.3 Felly, mae pobl Cymru a'i llywodraeth yn wynebu dewis ynghylch beth i'w wneud nesaf. Mae'r bennod olaf hon yn amlinellu'r ystyriaethau sy'n cyd-fynd â'r penderfyniadau hynny a pha argymhellion rhesymol y gallwn ni fel gwerthuswyr eu gwneud amdanynt.

### Amser dewis

9.4 Er gwaethaf nifer fach o amheuon pwysig, mae'r gwerthusiad cyffredinol yn cyfeirio at adroddiadau cadarnhaol am MPA fel mesur polisi ac yn fwy penodol at weithredu yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro yn awgrymu ei fod yn arf pwysig, ymysg eraill, mewn datblygu polisi alcohol.

9.5 Y cam amlwg fyddai dilyn arweiniad yr Alban ac adnewyddu'r ddeddfwriaeth, a thrwy hynny gadw'r opsiwn polisi.

9.6 Mae goblygiadau penodol ynghlwm wrth ddewis peidio ag adnewyddu'r ddeddfwriaeth MPA a gadael i'r 'cymal machlud' ddod i rym. Y mwyaf amlwg o'r rhain yw y bydd Cymru'n gweld argaeledd cynnyrch alcohol rhatach a'r cynnydd cysylltiedig mewn niwed yn dychwelyd.

9.7 Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried, yn enwedig yng ngoleuni Deddf Cymru (un o'r sbardunau gwreiddiol i weithredu'r ddeddfwriaeth yn 2018)[177], pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol ar MPA yn dod i ben, efallai na fyddai o reidrwydd ar gael fel mesur polisi i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol (heb gefnogaeth ganiataol Llywodraeth y DU).

9.8 Mae cwestiynau'n dal i fodoli am effaith y pris 50ppu gwreiddiol (a chyfredol o hyd) yn lleihau dros amser . Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth yw pris priodol wrth symud ymlaen. Mae'r penderfyniad i godi'r isafswm pris hefyd yn un gwleidyddol, ac nid heb ei ystyriaethau cyfathrebu a gweithredu yn y cyd-destun economaidd presennol.

9.9 Yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir uchod, mae ein hargymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

1) Dylai Llywodraeth Cymru adnewyddu yn hytrach na cholli'r opsiwn MPA fel mesur polisi alcohol yng Nghymru.

2) Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ystyried adolygiad o'r lefel pris 50ppu bresennol[178].

3) Mae angen cynnydd mewn prisiau i o leiaf 65ppu er mwyn cynnal y gwerth polisi presennol ac unrhyw rai o'r effeithiau cadarnhaol a welwyd hyd yma.

4) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd unrhyw ddefnydd parhaus o'r ddeddfwriaeth ac unrhyw gynnydd posibl mewn prisiau yn cael ei gefnogi gan gyfathrebu gweithredol sydd wedi'i lunio'n dda. Dylai hyn barhau i gynnwys cymorth penodol i yfwyr, adwerthwyr, safonau

[177] Lesch and McCambridge 2023 The case of alcohol pricing in Wales. Taylor & Francis Online.
[178] Adeg cyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu SARG i ddiweddaru modelu blaenorol ar gyfer Cymru.

masnach a darparwyr gwasanaethau triniaeth, a gallai gynnwys yr angen i ail-lansio negeseuon am y polisi a'i fwriadau.

5) Dylai Llywodraeth Cymru nodi effaith andwyol y polisi ar rai poblogaethau o bobl ar incwm isel ac yfwyr trwm a dylai, yn ei dro, sicrhau bod ei driniaeth, ei bolisi a'i ddarpariaeth ar gyfer alcohol yn diwallu anghenion y grŵp hwn[179].

6) Dylai unrhyw barhad o'r polisi gael ei ategu gan werthusiad parhaus a gwerthusiad pellach. Dylai hyn gynnwys ystyried effaith MPA ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.

7) Dylai Llywodraeth Cymru roi sylw i'r ffaith bod anghydraddoldeb ac amddifadedd dilynol yn ffactor mor allweddol mewn canlyniadau iechyd. Lle bo'n bosibl, dylai barhau i liniaru tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol gan ei bod yn fwyfwy clir bod niwed alcohol yn effeithio fwyaf ar y rheini sydd â nifer o brofiadau niweidiol difrifol, lefelau is o incwm, ac sy'n profi tlodi. Yn gyffredinol, mae angen i ddulliau polisi iechyd a chymdeithasol wneud mwy i integreiddio'r croestoriadau o gymorth ar gyfer bwyd, tai, incwm ac ystyriaethau nawdd cymdeithasol eraill, o fewn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol uniongyrchol.

9.10 Rydym hefyd yn cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaeth/triniaeth (os yw'r polisi'n parhau a/neu os yw'r isafswm pris yn newid):

1) Dylent gyfathrebu'n well â staff a'r rheini sy'n defnyddio eu gwasanaethau ynghylch polisi MPA.

2) Dylent ymgysylltu'n weithredol â phrofiadau unigolion a gwasanaethau cefnogi ar gyfer cymorth ariannol, tai, cyngor ar berthynas, cwnsela, ac atgyfeirio i ddadwenwyno.

3) Dylent fod yn glir wrth gynnig cyngor penodol ar leihau niwed mewn perthynas â niwed posibl newid o un cynnyrch alcohol i un arall a/neu i sylweddau eraill.

---

[179] Mae rhai goblygiadau yma ynghylch y gwasanaeth/triniaeth gyffredinol ar gyfer alcohol a chyffuriau. Mae alcohol yn gyson yn adlewyrchu'r sylwedd mwyaf cyffredin a gyflwynir, ond mae'n wasanaeth 'Sinderela' fel mater o drefn gyda gwariant cyllideb ac agendâu Bwrdd Cynllunio Ardal.